

Trosolwg o'r traddodiadau am Elen Luyddog/Santes Helen  
yn yr Oesoedd Canol yng Nghymru

Steven Peter Jones  
Rhif Myfyriwr: 1401984  
Mawrth 2018



**Master's Degrees by Examination and Dissertation**

**Declaration Form**

1. This work has not previously been accepted in substance for any degree and is not being concurrently submitted in candidature for any degree.

Name.....Steven P. Jones.....

Date ...29/03/18.....

2. This dissertation is being submitted in partial fulfilment of the requirements for the degree of ...Master of Arts Astudiaethau Celtaidd.....

Name... Steven P. Jones.....

Date ...29/03/18.....

3. This dissertation is the result of my own independent work/investigation, except where otherwise stated.

Other sources are acknowledged by footnotes giving explicit references.

A bibliography is appended.

Name...Steven P. Jones.....

Date: ...29/03/18.....

4. I hereby give consent for my dissertation, if accepted, to be available for photocopying, inter- library loan, and for deposit in the University's digital repository

Name...Steven P. Jones.....

Date.....29/03/18.....

**Supervisor's Declaration.**

I am satisfied that this work is the result of the student's own efforts.

Signed: .....

Date: .....

## Diolchiadau

Hoffwn ddiolch o galon i'm tiwtor, yr Athro Jane Cartwright, am ei chymorth a'i hanogaeth gyson a pharod gydol y gwaith hwn. Hoffwn ddiolch i Martin Crampin, Madeleine Gray ac Ann Parry Owen am eu cymorth gydag adrannau penodol o'r traethawd. Hefyd, dwi'n ddiolchgar iawn i'm ffrind Dafydd Timothy am ddod o hyd i nifer o lyfrau i mi, ac i sawl prifysgol a sefydliad am anfon copiâu electronig o ddeunyddiau perthnasol ataf. Fel dysgwr o bell, roeddwn i'n poeni ar ddechrau'r cwrs am allu dod o hyd i adnoddau a deunyddiau perthnasol, ond nid oedd angen i mi bryderu. Roedd y cymorth a gefais gydol y cwrs, ac ar gyfer y traethawd hwn, gan staff llyfrgell y Brifysgol, yn enwedig Victoria Hankinson, o'r safon uchaf bob tro. Dwi wir yn ddiolchgar iawn am y cymorth hwnnw. Yn olaf, hoffwn ddiolch i Rhian Thomas am fy nhywys mor dda drwy'r broses o gyflwyno'r traethawd.

## CYNNWYS

	<i>Tudalen</i>
Crynodeb	5
Cyflwyniad	6
Pennod 1 - <i>Breuddwyd Maxen</i>	8
Pennod 2 - Achau a Llawysgrifau	17
Pennod 3 - <i>Val y cauas Elen y Grog</i>	26
Pennod 4 - Gwaith Celf, Eglwysi a Ffynhonnau	34
Pennod 5 – Barddoniaeth	39
Pennod 6 – Casgliadau Cyffredinol	49
Llyfryddiaeth	51

## FFIGURAU

	<i>Tudalen</i>
Ffigur 1 - Darlun o Santes Helena	35
Ffigur 2 - Yr Afon Dyfrdwy yn llifo i Gaer	42
Ffigur 3 - Olion canoloesol Eglwys Sant Ioan	42
Ffigur 4 – Eglwys Sant Ioan heddiw	43

## Crynodeb

Erbyn heddiw, mae'n debyg ein bod yn cysylltu'r enw Elen/Helen â ffyrdd Rhufeinig Sarn Helen yn bennaf, ynghyd ag enwau lleoedd ac eglwysi yn ardal Caernarfon. Ond pwy, mewn gwirionedd, oedd Elen Luyddog, a sut y cafodd y traddodiadau amdani eu cysylltu â hanes Santes Helena yr honnir iddi ddarganfod croes Iesu Grist? Pam y mae enw Elen/Helen fel pe bai'n ymddangos mewn llawysgrifau Cymraeg mor aml yn yr Oesoedd Canol? Bwriad y gwaith hwn yw ystyried y dystiolaeth ganoloesol yn ymwneud ag Elen Luyddog/Santes Helen er mwyn pwysu a mesur datblygiad y traddodiadau amdani yng Nghymru. Fel y gwelir maes o law, ceir nifer o gyfeiriadau at Elen/Helen mewn dogfennau a chyd-destunau gwahanol yng Nghymru yn yr Oesoedd Canol, gan gynnwys mewn achau Cymraeg, chwedl secwlar, barddoniaeth, cyfieithiad Cymraeg o hanes Santes Helena a gwaith celf. Ymgais yw'r gwaith hwn i ddwyn ynghyd y ffynonellau gwahanol er mwyn pwysu a mesur arwyddocâd Elen Luyddog/Santes Helen yn yr Oesoedd Canol yng Nghymru.

## Cyflwyniad

Mae'r enwau 'Elen Luyddog', 'Santes Helen' neu 'Santes Helena' yn ymddangos yn gymharol reolaidd mewn testunau yn yr Oesoedd Canol yng Nghymru. Yn aml, cyfeiriad byr yn unig a geir at yr enw, er enghraifft mewn llawysgrifau sy'n olrhain achau breninliniau, ond troeon eraill mae Elen/Helen yn camu i ganol y llwyfan, fel yn y chwedl *Breuddwyd Maxen* a gyfansoddwyd tua ail hanner y ddeuddegfed ganrif.<sup>1</sup> Ond mae'n ymddangos nad yr un cymeriad yw Elen/Helen bob tro. Weithiau mae'n gymeriad seciwlar; tro arall yn santes ac weithiau'n gymeriad cyfansawdd. Un o'r pethau mwyaf diddorol yw'r ffaith fod y traddodiadau amdani fel pe baent yn newid dros amser – mewn gwledydd eraill yn ogystal ag yng Nghymru – am resymau rhethregol/gwladgarol yn aml. Yn hyn o beth, nid yw Elen/Helen yn wahanol i seintiau a santesau eraill, gan nad oedd y traddodiadau amdanynt yn aros yn sefydlog nac yn ddigyfnewid.<sup>2</sup>

Roedd y ffaith fod y Santes Helena hanesyddol yn fam i Gustennin Fawr (Constantinus) a bod traddodiad wedi datblygu amdani'n darganfod croes Iesu Grist yn ddylanwadol iawn yn yr Oesoedd Canol. Mae'n hawdd gweld pam y byddai Gwledydd Cred eisiau 'hawlio' cysylltiad â'r santes hon o ystyried ei phwysigrwydd. Nid oedd Cymru yn eithriad yn hyn o beth, ac fel y gwelir yn y traethawd hwn, ymddengys fod 'Elen Luyddog', a oedd yn ferch i'r brenin Eudaf o Gaernarfon yn ôl traddodiad Cymru, wedi'i chyfuno â Santes Helena i raddau helaeth, gan greu 'santes gyfansawdd'.<sup>3</sup> Er bydd y gwaith hwn yn canolbwyntio ar fersiwn Cymru o'r traddodiadau am Elen/Helen, mae'n werth cofio bod sawl fersiwn arall yn bodoli mewn gwledydd eraill, gan gynnwys y chwedl a ddaeth yn boblogaidd iawn - ac a gafodd ddylanwad mawr yng Nghymru diolch i *Brut y Brenhinedd* - bod Elen/Helen wedi'i geni ym Mhrydain a'i bod yn ferch i'r Brenin

---

<sup>1</sup> B. F. Roberts, gol., *Breudwyd Maxen Wledic* (Dulyn: Dublin Institute for Advanced Studies, 2005).

<sup>2</sup> S. Larkin, 'Transitions in the Medieval Legends of St. Helena', (Traethawd PhD heb ei gyhoeddi, Prifysgol Indiana, 1995), t. 17.

<sup>3</sup> J. Cartwright, *Y Forwyn Fair, Santesau a Lleianod – Agweddau ar Wryfyddod a Diweirdeb yng Nghymru'r Oesoedd Canol* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1999), tt. 76-133 (t. 87).

Coel. Yn hyn o beth, gellir dadlau bod yr ansicrwydd ynglŷn â chefnidir a magwraeth yr Helena hanesyddol wedi'i gwneud yn santes berffaith i'w mabwysiadu gan sawl gwlad a diwylliant. Er bod ansicrwydd o hyd ynglŷn â manylion magwraeth yr Helena hanesyddol, credir iddi gael ei geni rhwng AD 248 a 250, o bosibl yn Bithynia yn Asia Leiaf, ond ymddengys fod ei mab Custennin wedi cuddio'r manylion hyn gan fod ei mam wedi dod o deulu tlawd.<sup>4</sup>

Bydd y traethawd hwn yn cynnig trosolwg o'r brif dystiolaeth yn ymwneud ag Elen Luyddog/Santes Helen yng Nghymru yn yr Oesoedd Canol. Nid yw'n honni bod yn astudiaeth gynhwysfawr, gan fod y pwnc yn llawer rhy eang i allu ymdrin ag ef yn fanwl iawn o fewn cyfyngiadau traethawd MA. Y nod yw bwrw golwg ar rai o'r prif ffynonellau canoloesol sy'n cyfeirio at Elen Luyddog/Santes Helen yng Nghymru, sef: chwedl *Breuddwyd Maxen*; nifer o achau a llawysgrifau; cyfieithiad Cymraeg canol o'r chwedl am Santes Helena yn darganfod y Wir Groes, *Val y cauas Elen y Grog*; gwaith celf a chysegriadau eglwysi, a barddoniaeth. Fel y gwelir maes o law, ceir amrywiaeth eang a diddorol o gyfeiriadau at Elen/Helen, sy'n awgrymu bod y santes hon yn bwysig yng Nghymru yn yr Oesoedd Canol. Mae'r traethawd hwn yn cyfeirio at 'Elen Luyddog', 'Santes Helen' neu 'Santes Helena' yn ôl cyd-destun y cyfeiriad, ond fel y gwelir maes o law, ymddengys fod Elen Luyddog wedi mabwysiadu priodweddau'r Santes Helena Rufeinig o gyfnod cymharol gynnar, gan greu santes gyfansawdd.

Trafodir y prif dystiolaeth yn ymwneud ag Elen/Helen mewn penodau ar wahân, a'r prif nod yw agor cwr y llen ar draddodiadau hynod ddiddorol sy'n haeddu astudiaeth fanylach yn y dyfodol.

---

<sup>4</sup> A. Harbus, *Helena of Britain in Medieval Legend*, (Caergrawnt: D.S. Brewer, 2002), t. 13.

## Pennod 1 - *Breuddwyd Maxen*

Mae Elen Luyddog yn un o'r prif gymeriadau mewn chwedl Gymraeg seciwlar o'r Oesoedd Canol, *Breuddwyd Maxen*, ac mae'r rhan fwyaf o waith academiaidd yn ymwneud ag Elen yn canolbwyntio ar ei hymddangosiad yn y stori hon. Cyn ystyried sut mae awdur y chwedl yn portreadu cymeriad Elen, ac arwyddocâd hynny i'r traddodiadau amdani, mae'n bwysig nodi ychydig o gefndir a chyd-destun *Breuddwyd Maxen* a chyfeirio at yr hyn sy'n hysbys am y cymeriad hanesyddol Magnus Maximus.

Mae *Breuddwyd Maxen* yn un o'r un ar ddeg o chwedlau Cymraeg canoloesol sydd wedi goroesi mewn dwy lawysgrif yn bennaf, sef Llyfr Gwyn Rhydderch (tua 1350) a Llyfr Coch Hergest (rhwng tua 1382 a 1410).<sup>5</sup> Cyfeirir at y chwedlau hyn fel *Y Mabinogion*, ac maent yn cynnwys *Pedeir Keinc y Mabinogi* a nifer o chwedlau eraill. Mae *Breuddwyd Maxen* a *Lludd a Llefelys* yn perthyn i is-grŵp o chwedlau byr o fewn *Y Mabinogion*,<sup>6</sup> ond er bod y ddwy yn storïau lled hanesyddol, nid oes unrhyw gysylltiad rhyngddynt o ran eu themâu na'u cyfnod hanesyddol. Mae *Breuddwyd Maxen* yn seiliedig ar y cymeriad Magnus Maximus, a anwyd yn Sbaen ac a ddaeth yn Ymerawdwr Rhufeinig rhwng AD 383 a 388 ar ôl teithio o Brydain i Rufain i drechu Gratian. Roedd haneswyr Rhufeinig yn feirniadol iawn o Magnus Maximus am wrthryfela yn erbyn yr Ymerawdwr ac am adael Prydain yn ddi-amddiffyn, ond daeth Maximus yn unigolyn pwysig a dylanwadol yn hanesyddiaeth Prydain a Chymru maes o law.<sup>7</sup> Rhaid cofio mai 'dychymyg hanesyddol'<sup>8</sup> a geir yn y chwedl, sy'n adrodd bod Maxen wedi teithio o Rufain i Gymru i briodi'r forwyn a welodd yn ei freuddwyd, sef Elen. Wedyn, mae'r chwedl yn cynnwys elfennau onomastig sy'n adrodd sut y cafodd Llydaw ei sefydlu gan Cynan, brawd Elen, sut y cafodd caerau Caerllion, Caerfyrddin a Chaernarfon eu creu iddi, a'i chysylltiad â'r ffyrdd Rhufeinig, 'Sarn Helen'.

---

<sup>5</sup> D. Hughes, *Medieval Welsh Manuscripts* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2002).

<sup>6</sup> G. Jones a T. Jones, *The Mabinogion* (Llundain: Guernsey Press Co. Ltd., 1986), t. x.

<sup>7</sup> S. Davies, *The Mabinogion – A new translation by Sioned Davies*, t. xii.

<sup>8</sup> B.F. Roberts, Rhagymadrodd i *Y Mabinogion – Diweddariad gan Dafydd a Rhiannon Ifans* (Llandysul: Gwasg Gomer, 1995), t. xxiv.



Er bod modd honni yn ôl safonau modern bod yr hanesion ychwanegol hyn am Elen, Maxen a Llydaw yn amharu ar adeiladwaith *Breuddwyd Maxen*,<sup>9</sup> nid oes amheuaeth bod yr awdur yn datblygu'r chwedl mewn ffordd hynod gelfydd, gan fanteisio ar y dull poblogaidd o adrodd yr un hanesyn deirgwaith. Mae'r chwedl yn llifo'n dda, mae'n cynnwys disgrifiadau manwl a hynod drawiadol o dopograffeg ardal Caernarfon, ac er ei bod yn un o'r chwedlau byrraf, mae'n un o'r rhai mwyaf gorffenedig.<sup>10</sup> Yn ôl Ifor Williams a olygodd y testun y dyfynnir ohono yn y traethawd hwn: 'Ym Mreuddwyd Maxen cawn gymysgfa o hanes, o draddodiad ac o ddyfais lenyddol gan wŷr cyfarwydd ag adrodd storïau difyr'.<sup>11</sup>

Un o'r pethau mwyaf trawiadol am y chwedl yw'r ffaith ei bod yn portreadu Maxen (y ffurf Gymraeg am Maximus) mewn ffordd gadarnhaol - yn wahanol i'r portreadau cynharach ohono gan gronicylwr Lladin. Yn ei waith *De Excidio Britanniae* yn y chweched ganrif, mae croniclydd hynaf hanes Prydain, Gildas, yn beirniadu Maxen yn hallt am deithio i Rufain gyda'i filwyr er mwyn gorchfygu'r ddinas a disodli'r Ymerawdwr, gan adael Prydain yn ddi-amddiffyn yn y broses.<sup>12</sup> Mae'r gwaith a briodolwyd yn anghywir i'r mynach Nennius yn y nawfed ganrif, *Historia Brittonum*, hefyd yn condemnio Maxen am adael Prydain heb filwyr i amddiffyn y wlad. Fodd bynnag, yn ddiddorol iawn mae'r gwaith hwn ychwanegu straeon newydd am y Rhufeiniaid ym Mhrydain, sef bod ymerawdwr o'r enw Custennin wedi'i gladdu yng Nghaernarfon a bod Magnus Maximus wedi mynd â milwyr o Brydain i Lydaw.<sup>13</sup> Mae'r elfen olaf hon i'w gweld yn chwedl *Breuddwyd Maxen* hefyd, ac mae'n ymddangos bod y Cymry yn dechrau ymfalchïo yn eu cysylltiadau â Rhufain erbyn y nawfed ganrif.

Unigolyn arall a oedd yn awyddus iawn i ganmol Magnus Maximus, Custennin Fawr a Santes Helena, a'u cysylltu â Phrydain, oedd Sieffre o Fynwy, awdur *Historia Regum*

---

<sup>9</sup> *ibid.*, t. xxv.

<sup>10</sup> *ibid.*, t. xxiv.

<sup>11</sup> I. Williams, gol., *Breuddwyd Maxen* (Bangor: Jarvis a Foster, 1908), t. vii.

<sup>12</sup> G. Thomas, 'O Maximus i Maxen', *Trafodion Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion*, (1983): 7-21 (t. 12), Llyfrgell Genedlaethol Cymru [ar-lein]. Ar gael ar

<https://journals.library.wales/view/1386666/1421422/22#?xywh=-315%2C-162%2C2809%2C3875>

<darllenwyd 13 Ionawr 2018>

<sup>13</sup> *ibid.*, t. 15.

*Britanniae* tua 1136-38. Trafodir cyfraniad ‘y pen-chwedleuwr’<sup>14</sup> hwn at hanesyddiaeth Cymru yn fanylach maes o law, ond mae’n bwysig nodi yma bod Sieffre wedi mynd ati i ‘greu’ hanes er mwyn honni bod y Brenin Arthur yn hanu o linach fawreddog a oedd yn cynnwys Maximus, Custennin Fawr a’i fam Helena. Honnai Sieffre o Fynwy fod Helena yn hanu o Brydain a’i bod yn ferch i Coel, brenin chwedlonol Colchester, ac er ei bod yn hawdd wfftio’r ffug hanes hwn heddiw, roedd yn ddylanwadol iawn ar y pryd.<sup>15</sup> Roedd y broses hon o ‘hawlio’ cymeriadau hanesyddol enwog i’r genedl at ddibenion gwleidyddol/rhethregol yn berthnasol iawn i’r traddodiadau am Elen Luyddog, fel y gwelir maes o law.

Prif amcan awdur *Breuddwyd Maxen* yw adrodd stori am uniad Magnus Maximus ac Elen, merch Eudaf ap Caradog o Gaernarfon, ac mae’n gwneud hynny mewn ffordd drawiadol trwy ddisgrifio breuddwyd Maxen a’i ymdrechion i ddod o hyd i Elen. Caiff y chwedl ei hadrodd fel rhamant wrth i Maximus syrthio mewn cariad ag Elen mewn breuddwyd cyn chwilio amdani wedyn, ac fel y noda Antonina Harbus: ‘It conveniently unites two legendary Welsh progenitors in one marriage.’<sup>16</sup> Yn y cyswllt hwn, mae’n bwysig cofio bod traddodiadau am yr Helena Rufeinig, mam Custennin Fawr, wedi’u cysylltu ag Elen merch Eudaf mewn deunyddiau a ddefnyddiodd awdur *Breuddwyd Maxen*. Mae un o Trioedd Ynys Prydein (33) yn datgan bod Elen yn chwaer i Cynan, sef sylfaenydd Llydaw yn ôl rhai traddodiadau, ac yn ôl George F. Brewer a Bedwyr Lewis Jones:

In the Dream of Maxen, therefore, it would appear that one has the bringing together within a ‘Falling in Love Through a Dream’ tale, of the two reputed leaders of the colonization of Brittany, Cynan and Maxen.<sup>17</sup>

Serch cymhellion gwleidyddol posibl y chwedl hon, mae’n bwysig cofio nad cymeriad ymylol yw Elen Luyddog yn *Breuddwyd Maxen*, a’i bod yn gwbl ganolog i ddatblygiad a llwyddiant y stori. Mae’r disgrifiadau ohoni yn y chwedl yn drawiadol iawn, ac yn hyn o

<sup>14</sup> I. Williams, gol., *Breuddwyd Maxen*, t. xi.

<sup>15</sup> D. Farmer, *Oxford Dictionary of Saints* (United States: Oxford University Press, 2011), t. 206.

<sup>16</sup> A. Harbus, *Helena of Britain in Medieval Legend*, t. 58.

<sup>17</sup> G.F. Brewer a B.L. Jones, ‘Popular Tale Motifs and Historical Tradition in Breuddwyd Maxen’, *Medium AEvum* 44 (1975): 23-30 (t. 28).

beth mae arddull *Breuddwyd Maxen* yn wahanol iawn i *Pedeir Keinc y Mabinogi*, sy'n tueddu i ganolbwyntio mwy ar ferfau yn hytrach nag ansoddeiriau.<sup>18</sup> Yn y freuddwyd, mae Maxen yn gweld caer fawr ysblennydd sy'n llawn addurniadau aur: 'toat y neuad a tebygei y vot yn eur oll'.<sup>19</sup> Mae'r forwyn hardd sy'n byw yn y gaer, 'yn teckaf gol6c o dyn edrych arnei',<sup>20</sup> yn gwisgo pob math o ddillad a gemwaith drawiadol, gan gynnwys crysau o sidan gwyn, addurniadau aur, perlau a gwregys aur. Ar un ystyr, mae'n ymddangos bod cymeriad arallfydol yn cael ei phortreadu gan yr awdur yn y rhan hon o'r chwedl, ac mae'r darlun ohoni yn wahanol i'r disgrifiad o fenywod hardd yn y chwedlau eraill.<sup>21</sup> Yn wir, credai'r ysgolhaig John Rhys mai duwies y wawr oedd Elen, tra bod Ifor Williams o'r farn mai duwies rhyfel oedd hi oherwydd ei chysylltiad â'r 'ffyrdd yr ymdeithiai lluoedd arfog Rhufain ar hyd-ddynt'.<sup>22</sup> Mae Rachel Bromwich yn rhannu barn y ddau ysgolhaig hyn ac yn credu bod Elen Luyddog mwy na thebyg yn seiliedig ar dduwies Brydeinig, ond bod pobl wedi drysu rhyngddi hi a Santes Helena, mam Custennin Fawr.<sup>23</sup>

Fodd bynnag, mae angen bod yn ofalus iawn wrth bwysu a mesur unrhyw honiadau bod Elen yn dduwies Geltaidd neu Brydeinig. Fel y nodwyd yn gynharach, mae Elen Luyddog yn cael ei chysylltu'n aml â ffyrdd Rhufeinig ym Mhrydain, ac mae John Rhys yn priodoli'r nodwedd hon i'r posibilrwydd bod Elen yn dduwies y wawr a'r cyfnos a'i bod yn ffynhonnell bosibl enwau lleoedd 'Sarn Helen'.<sup>24</sup> Ond mae'n rhaid cofio ei bod yn ffasiynol yng nghyfnod John Rhys i gredu bod cymeriadau chwedlonol o bob math yn seiliedig ar dduwiau/duwiesau Celtaidd, ac ar sail y dystiolaeth, mae'n anodd anghytuno â barn George F. Brewer a Bedwyr Lewis Jones:

---

<sup>18</sup> S. Davies, 'Pryd a Gwedd yn y Mabinogion', *Ysgrifau Beirniadol XIV*, gol. J.E.C. Williams (Llandysul: Gwasg Gee, 1988): tt. 115-133 (t. 116).

<sup>19</sup> I. Williams, gol., *Breuddwyd Maxen*, t. 3.

<sup>20</sup> *ibid.*, t. 4.

<sup>21</sup> A.M. Jones, 'Gwisgoedd ac Ategolion yn Llenyddiaeth yr Oesoedd Canol' (Traethawd PhD heb ei gyhoeddi, Prifysgol Cymru Aberystwyth, 2007) [ar-lein]. Ar gael ar: <http://cadair.aber.ac.uk/dspace/handle/2160/499> <darllenwyd 11/10/17>

<sup>22</sup> I. Williams, gol., *Breuddwyd Maxen*, t. xvi.

<sup>23</sup> R. Bromwich, 'The Character of the Early Welsh Tradition', *Studies in Early British History*, gol. H.M. Chadwick et al. (Caergrawnt: Gwasg Prifysgol Caergrawnt, 1954): tt. 83 – 136 (t. 93).

<sup>24</sup> J. Rhys, *Lectures on the Growth of Religion as Illustrated by Celtic Heathendom* (Llundain: 1888), t. 167.

The orthodox view, as has already been pointed out, is that she was a goddess of Welsh mythology. We can only report that we can find no evidence to support this.<sup>25</sup>

Ymddengys fod cysylltiad Elen â'r ffyrdd Rhufeinig ymysg y traddodiadau cynharaf yn ymwneud â hi, ac yn ôl Bromwich, gan fod y term *lluydawc* yn cael ei ddefnyddio am y tro cyntaf yn y chwedl wrth ddisgrifio adeiladu ffyrdd, mae'n ymddangos bod yr awdur yn credu bod yr enw Elen yn cyfeirio atynt.<sup>26</sup> Ond mae'n rhaid cofio bod sawl elfen onomastig yn chwedl *Breuddwyd Maxen*, ac mae'n bosibl bod cysylltu Elen ag adeiladu ffyrdd rhwng prif ganolfannau'r Rhufeiniaid ledled Prydain yn enghraifft o chwedl onomastig. Yn wir, mae nifer o bobl wedi cynnig esboniad credadwy arall am darddiad yr enw 'Sarn Helen': 'Y mae'n bosibl fod yr Helen yn Sarn Helen yn wreiddiol yn golygu 'penelin' neu 'elin', gan ei bod yn amhosibl creu'r ffyrdd syth Rhufeinig mewn gwlad fel Cymru'.<sup>27</sup> Hefyd, mae'n ddiddorol nodi bod awdur y chwedl yn cyfeirio at y tair caer Rhufeinig – Caerllion, Caerfyrddin a Chaernarfon – cyn sôn o gwbl am adeiladu ffyrdd. Yn ôl Brynley F. Roberts,<sup>28</sup> gall hyn awgrymu bod cysylltiad rhwng enwi'r prif gaerau sy'n uno Cymru ag ymgyrch Llywelyn Fawr i uno Cymru yn 1215-17. Cyfyd y cwestiwn wedyn ai ymgais yw'r chwedl hon gan lys Gwynedd i hybu statws Gwynedd dros reolwyr eraill Cymru? Er ei bod yn amhosibl gwybod yr ateb, mae hwn yn gwestiwn diddorol sy'n rhoi gwedd newydd ar gymhellion gwleidyddol posibl awdur *Breuddwyd Maxen*.

Bydd pennod arall o'r traethawd hwn yn trafod y cyfeiriadau at Elen Luyddog mewn achau perthnasol, a'u harwyddocâd i'r traddodiadau amdani yng Nghymru. Serch hynny, wrth drafod *Breuddwyd Maxen*, mae'n bwysig nodi bod Magnus Maximus yn gymeriad hynod bwysig yn hanesyddiaeth Cymru, a bod ei enw yn ymddangos mewn

---

<sup>25</sup> G.F. Brewer a B.L. Jones, 'Popular Tale Motifs and Historical Tradition in Breuddwyd Maxen', t. 27.

<sup>26</sup> R. Bromwich, gol. a chyfieithiad Saesneg, *Trioedd Ynys Prydein – The Triads of the Island of Britain* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2017), t. 343.

<sup>27</sup> *Cydymaith i Lenyddiaeth Cymru* gol. M. Stephens, (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1986), t. 186.

<sup>28</sup> B.F. Roberts, 'Breuddwyd Maxen Wledig: Why? When?' *Heroic Poets and Poetic Heroes in Celtic Tradition*, goln. J.F. Nagy ac L.E. Jones (Dulyn: Four Courts Press Ltd, 2005): tt. 303 – 315 (t. 312).

sawl rhestr achau.<sup>29</sup> Mae enw Maximus yn ymddangos yn y safle arwyddocaol olaf yn achau Harley (Rhif 4) sy'n olrhain achau Iudgual.<sup>30</sup> Mae enw Maximus yn cael ei gynnwys yn achau Dyved (Achau 2) ac mae'n cael ei nodi'n sylfaenydd achau gogleddol anhysbys (Achau 4).<sup>31</sup> Hefyd, mae'n ddiddorol nodi bod arysgrif ar faen hynafol o'r nawfed ganrif sy'n sefyll wrth ymyl Abaty Glyn y Groes ger Llangollen yn olrhain achau brenin Powys, Eliseg, yn ôl i Maximus. Mae'r arysgrif hon, sydd i'w gweld mewn testun llawnach mewn llawysgrif yn y Llyfrgell Brydeinig (Harley 3780), yn adrodd bod Eliseg wedi cipio treftadaeth Powys o'r Eingl-Sacsoniaid yn dilyn rhyfel a barodd naw mlynedd.<sup>32</sup> Felly, yn dilyn y feirniadaeth a fu arno yn y ffynonellau cynnar, ymddengys fod y Cymry wedi dechrau meddwl yn wahanol iawn am Maximus erbyn y nawfed ganrif, bod y stori amdano'n newid a bod 'brenhinoedd am ei arddel'.<sup>33</sup> Yn un llawysgrif, mae achau Maximus yn cael eu holrhain ymhellach yn ôl i Gustennin Fawr, mab Custaint a Helena Luicdauc, ac mae'n nodi bod Helena wedi mynd o Brydain i Gaersalem i ganfod Gwir Groes Iesu Grist. Mae'r holl gyfeiriadau hyn yn dangos y broses o 'hawlio' cymeriadau hanesyddol at ddibenion gwleidyddol, fel y noda J. Matthews: 'This is, of course, fiction with a political purpose, to authenticate the claims of medieval royal dynasties'.<sup>34</sup>

Un o nodweddion amlycaf a mwyaf diddorol *Breuddwyd Maxen* yw'r ffaith fod y chwedl wedi'i lleoli'n bendant yn ardal Caernarfon, tref a oedd â chysylltiadau Rhufeinig cryf iawn. Mae awdur y chwedl yn cyfeirio at yr ardal sy'n gartref i Elen mewn ffordd gynnil a chelfydd iawn, gan ddisgrifio taith negeseuwyr Maxen mewn llong 'yny doethant i Eryri'.<sup>35</sup> Wedyn, mae'r disgrifiad daearyddol manwl yn parhau, gyda chyfeiriadau at Ynys Môn ac Arfon: 'Wynt a doethant raddunt yny welynt Mon gyuarwyneb ac wynt, ac

---

<sup>29</sup> A. Harbus, *Helena of Britain in Medieval Legend*, t. 57.

<sup>30</sup> *ibid.*, t. 57

<sup>31</sup> R. Bromwich, 'The Character of the Early Welsh Tradition', t. 94.

<sup>32</sup> J. Matthews, 'Macsen, Maximus and Constantine', *Cylchgrawn Hanes Cymru*, Vol. II rhifau 1-4, (1982-83): 431-448 (t.444), Llyfrgell Genedlaethol Cymru [ar-lein]. Ar gael ar <https://journals.library.wales/view/1073091/1078288/470#?cv=470&m=10&h=Macsen, Maximus and Constantine&c=0&s=0&xywh=-938%2C0%2C4357%2C3839> <darllenwyd 5/10/17>

<sup>33</sup> G. Thomas, 'O Maximus i Maxen', t. 16.

<sup>34</sup> J. Matthews, 'Macsen, Maximus and Constantine', t. 445.

<sup>35</sup> I. Williams, gol., *Breuddwyd Maxen*, t. 6.

yny welynt heuyt Aruon'.<sup>36</sup> Yna mae'r negeseuwyr yn cyrraedd Aber Saint ger Caer Saint (Caernarfon) nes cyfarfod â'r forwyn a welodd yr ymerawdwr Maxen yn ei freuddwyd, sef Elen. Mae awdur y chwedl yn cyfleu statws y forwyn hon wrth i'r negeseuwyr ostwng ar eu pennau gliniau a'i chyfarch fel 'Ymerodres Rhufain'. Mae'r negeseuwyr yn dweud wrth y forwyn am freuddwyd Maxen a'i ddymuniad iddi ddychwelyd gyda nhw i Rufain i'w briodi neu iddo ef ddod yma i'w chymryd yn wraig iddo. Mae ymateb Elen yn awgrymu ei bod yn gymeriad cryf a di-lol: 'Namyn, os miui a gar yr amherawdyr, deuhet hyt yman y'm ôl'.<sup>37</sup> Hynny yw, fel y dywedodd Gwyn Thomas mewn ffordd mor gofiadwy: 'os ydi'r ymerawdwr eisio'r fodan y mae'n rhaid iddo symud ei draed'.<sup>38</sup>

I ryw raddau, nid yw'n syndod bod awdur *Breuddwyd Maxen* wedi dewis Caernarfon yn lleoliad chwedl yn ymwneud â'r Rhufeiniaid gan y bu'r dref yn gartref i Gaer Segontium. Hefyd, roedd *Historia Brittonum* wedi honni bod Custennin, mab Custennin Fawr, wedi'i gladdu ger Caer Segeint (Segontium), ac mae'n debyg bod yr honiad hwn yn gyfrifol am gysylltu Custennin ac Elen â Chaernarfon: 'Through Constantine Caernarfon was, in the popular mind, the most Roman City in Wales'.<sup>39</sup> Gan fod Elen yn cael ei chysylltu mor agos â Custennin Fawr, mae'n amlwg y byddai unrhyw gysylltiad honedig rhwng Custennin Fawr â Chaernarfon yn ei chlymu hi'n agosach at y dref. Er nad yw'r ffeithiau hanesyddol yn cefnogi unrhyw honiad bod mab Custennin Fawr wedi'i gladdu yng Nghaernarfon, mae'n bosibl bod rhywun lleol o'r un enw wedi'i gladdu yno a bod chwedl wedi tyfu mai mab Custennin Fawr oedd ef. Unwaith y digwyddodd hynny, byddai'r cysylltiad rhwng Elen, mam Custennin Fawr, â thref Rufeinig Caernarfon yn cryfhau, ac mae'n hawdd gweld pam y byddai awdur *Breuddwyd Maxen* wedi dewis lleoli'r chwedl yno. Ymddengys, felly, fod y cymeriad chwedlonol Elen wedi'i chymysgu â Santes Helena yn chwedl *Breuddwyd Maxen*, ac yn ôl Gwyn Thomas, gellir priodoli hynny, a'i chysylltiad â Chaernarfon, i'r chwedl bod mab Custennin Fawr wedi'i gladdu yn yr ardal:

---

<sup>36</sup> *ibid.*, t. 7.

<sup>37</sup> I. Williams, gol., *Breuddwyd Maxen*, t. 8.

<sup>38</sup> G. Thomas, 'O Maximus i Maxen', t. 18.

<sup>39</sup> B.F. Roberts, 'Breuddwyd Maxen Wledig: Why? When?', t. 307.

'Awn yn ôl at Nennius: roedd gan hwnnw chwedl am Gystennin fab Cystennin Fawr a oedd wedi'i gladdu yng Nghaernarfon. Cystennin Caernarfon: heb fod yn bartiolar o gwbl, fe gydiwyd yn yr enw yma a chysylltu Helena y Rhufeiniaid â fo. Dyna inni, felly, gysylltu'r Helena Rufeinig â Chaer Saint, â Chaernarfon. A chan fod Elen a Helena mor debyg dyna gymysgu'r Gymraes a'r Rhufeines a'u gwneud yn un'.<sup>40</sup>

Un nodwedd arall y mae angen ei thrafod yn y bennod hon yw'r cysylltiad rhwng Elen a'i brodyr â Llydaw yn *Breuddwyd Maxen*. Yn ystod rhan olaf y chwedl, mae brodyr Elen, Cynan ac Adeon, yn teithio o Brydain i helpu Maxen i orchfygu Rhufain, ac yn cyfnewid am hyn, mae Maxen yn cynnig unrhyw ran o'i ymerodraeth i wŷr Prydain. Er bod Adeon a llawer o'r milwyr yn dychwelyd i Brydain, mae Cynan yn penderfynu aros yn y wlad lle y mae'n trigo ar y pryd, sef Llydaw. Yr hyn sy'n dilyn wedyn yw esboniad onomastig digon erchyll o'r enw Llydaw, sef Lled + taw (hanner distaw) ar ôl i lu Cynan dorri tafodau gwagedd y wlad 'rac llygru eu hieith'.<sup>41</sup> Erbyn tua 800, nodwyd bod milwyr Maximus na wnaethant ddychwelyd i Brydain wedi sefydlu Llydaw, ac mae cysylltiad Cynan, brawd Elen, yn allweddol yn y cyswllt hwn: 'The Dream of Maxen draws on native historical traditions about Helena and about Maximus/Maxen and Cynan and the colonization of Brittany'.<sup>42</sup> Fel y nodwyd yn gynharach, mae'r enw Cynan yn cael ei gysylltu â sefydlu Llydaw mewn achau Cymraeg, ac mae'n ddiddorol sylwi ei fod yn cael ei enwi'n frawd i Elen yn y chwedl hon. Hefyd, er ein bod yn tueddu i gysylltu Non, mam Dewi Sant, â Llydaw yn fwy nag unrhyw santes arall, mae un traddodiad yn honni bod Elen Luyddog yn huno yn Llydaw ar ynys unig a thawel o'r enw Tombelaine.<sup>43</sup>

Fel y nodwyd ar ddechrau'r bennod hon, mae'r rhan fwyaf o waith academaidd yn ymwneud ag Elen Luyddog yn canolbwyntio ar ei hymddangosiad yn chwedl *Breuddwyd Maxen*. Nid oes amheuaeth bod ei hymddangosiad annisgwyl yn ychwanegu elfen hudol a chyffrous at y chwedl, ac er bod cyfeiriadau blaenorol ati

---

<sup>40</sup> G. Thomas, 'O Maximus i Maxen', t. 20.

<sup>41</sup> I. Williams, gol., *Breuddwyd Maxen*, t. 12.

<sup>42</sup> G.F. Brewer a B.L. Jones, 'Popular Tale Motifs and Historical Tradition in Breuddwyd Maxen', t. 29.

<sup>43</sup> S. Evans, 'Seintiau Newydd yn Llydaw Hen', *Y Traethodydd*, Cyf. CXVI (XXIX) (498-501), (1961): 33-38 (t. 33), Llyfrgell Genedlaethol Cymru [ar-lein]. Ar gael ar <https://journals.library.wales/view/1134021/1152493/38#?cv=38&m=61&h=seintiau%20newydd%20yn%20llydaw%20hen&c=0&s=0&xywh=-813%2C-1%2C4509%2C3974> <darllenwyd 7 Chwefror 2018>

mewn achau Cymraeg, i ryw raddau mae Elen yn dod yn 'fyw' yma ac yn swyno'r darllenydd. Er ei bod yn amhosibl bod yn sicr am gymhellion awdur chwedl o'r Oesoedd Canol heddiw, mae'r bennod hon wedi ceisio awgrymu mai rhesymau gwleidyddol a oedd wrth wraidd ei benderfyniad i adrodd stori am briodas Elen a Magnus Maximus, a'i lleoli yng Nghaernarfon. Fel y nodwyd, roedd awydd y Cymry i'w cysylltu eu hunain â'r Rhufeiniaid yn cryfhau o tua'r nawfed ganrif ymlaen, ac mae'n bosibl iawn bod *Breuddwyd Maxen* yn fynegiant arall o'r dyhead hwn:

The story, like the medieval genealogies and other sources, should be seen as an expression of the surviving memory of the Roman empire, put to political use by Celtic dynasties in an age of domination of the old province of Britain by Anglo-Saxons.<sup>44</sup>

---

<sup>44</sup> J. Matthews, 'Macsen, Maximus and Constantine', t. 448.



## Pennod 2 - Achau a Llawysgrifau

Amcan yr adran hon yw pwyso a mesur y cyfeiriadau at Elen/Helen mewn hen achau a llawysgrifau canoloesol. Fel y dengys maes o law, mae enw Elen/Helen yn ymddangos yn aml mewn achau Cymraeg at ddibenion rhethregol/gwleidyddol,<sup>45</sup> a cheir cyfeiriadau ati mewn testunau fel *Historia Regum Britanniae* a chyfieithiad Cymraeg y gwaith hwn, *Brut y Brenhinedd*, yn *Trioedd Ynys Prydein*, ac mewn rhestr o achau'r seintiau, *Bonedd y Saint*. Rhoddir sylw i'r cyfieithiad Cymraeg o hanes y Santes Helena Rufeinig, *Val y cauas Elen y Grog*, mewn pennod arall o'r traethawd hwn.

Mae testun cynharaf yr achau Cymraeg wedi'i gynnwys mewn dogfen o'r ddeuddegfed ganrif, Harleian MS. 3859, sydd hefyd yn cynnwys y testun cyflawn cyntaf o *Historia Brittonum*.<sup>46</sup> Mae'r ail achau a restrir yn y ddogfen yn nodi mai Elen yw hynafiad teulu brenhinol Owain o Dyfed:

Ouein...map Arthur...map Maxim Guletic (MS Gulecic)...map  
Constanini Magni map Constantii et Helen Luitdauc, que de Britannia  
exiuit ad crucem Christi querendam usque ad Jerusalem et inde  
attulitsecum usque ad Constantinopolin et est ibi usque in hodiernum  
diem.<sup>47</sup>

Heb os, dyma restr werth chweil o hynafiaid sy'n cynnwys cymeriadau chwedlonol fel Arthur, Maxen Wledig, Custaint (Constantius), Custennin Fawr a Helen, a byddai'r rhestr yn cael ei defnyddio at ddibenion rhethregol i gryfhau hawl Owain dros diroedd Cymru. Rhaid cofio bod yr arfer hwn o gynnwys cymeriadau hanesyddol a mytholegol enwog mewn achau yn gyffredin iawn er mwyn cryfhau hawliau dros freninliniau, yn enwedig wrth olrhain llinachau ymhellach na'r bumed ganrif.<sup>48</sup> Mae sawl peth diddorol am y cofnod hwn, gan gynnwys y ffaith mai enw 'Helen Luitdauc' sydd yn y safle olaf pwysig yn y rhestr, gan awgrymu ei bod yn unigolyn uchel ei pharch ar y pryd. Hefyd, dyma'r enghraifft gynharaf o gysylltu'r gair 'Luyddog' ag Elen, sy'n digwydd wedyn

---

<sup>45</sup> J. Matthews, 'Macsen, Maximus and Constantine', t. 444.

<sup>46</sup> R. Bromwich, 'The Character of the Early Welsh Tradition', t. 93.

<sup>47</sup> P.C. Bartrum, *Early Welsh Genealogical Tracts* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1966), t. 10.

<sup>48</sup> R. Bromwich, 'The Character of the Early Welsh Tradition', t. 93.

mewn testunau fel *Brut y Brenhinedd* a chwedl *Breuddwyd Maxen*.<sup>49</sup> Mae'r teitl 'Lluyddog' yn awgrymu bod Elen yn cael ei chysylltu'n gynnar iawn â'r ffyrdd Rhufeinig yng Nghymru, ond mae'n werth cofio bod ei mab Custennin Fawr wedi bod yn gyfrifol am gynllun mawr i atgyweirio ffyrdd Prydain, ac mae'n bosibl bod y ffaith hon wedi cynorthwyo'r broses o gyfuno Elen Luyddog â'r Santes Helena Rufeinig.<sup>50</sup> Hefyd, mae'r ansoddair 'lluyddog' yn cael ei ddefnyddio yn y Gododdin i ddisgrifio un o'r rhyfelwyr.<sup>51</sup>

Er bod enw Maxen Wledig yn cael ei gysylltu ag Elen Luyddog yn yr achau hyn, mae'n cael ei nodi saith cenhedlaeth yn uwch nag Elen.<sup>52</sup> Mae hyn yn wahanol iawn i'r portread a geir ohonynt fel gŵr a gwraig maes o law yn chwedl *Breuddwyd Maxen*. Ond mae'n bosibl mai un o'r pethau mwyaf diddorol am y cofnod hwn yw'r ffaith fod Elen Luyddog yn nhraddodiad Cymru fel pe bai wedi mabwysiadu priodweddau'r Santes Helena Rufeinig eisoes, sef ei bod yn fam i Gustennin Fawr a'i bod wedi darganfod y Wir Groes:

The combination of this appellation with an explicit reference to the finding of the Cross and maternity of Constantine is the earliest and most explicit proof that the Helena of the Welsh tradition was modelled on St. Helena.<sup>53</sup>

Mae'r ffaith hon yn tansilio'r ddadl bod Elen Luyddog yn rhyw fath o dduwies Geltaid a gyfunwyd maes o law â Santes Helena, gan fod yr achau cynnar yn awgrymu'n gryf bod y ddwy eisoes yn un cymeriad cyfansawdd yn ôl traddodiad Cymru. Hefyd, mae'r ffaith fod enw Maximus yn ymddangos yn yr un rhestr achau ag Elen yn hyrwyddo'r argraff fod Elen yn cael ei hawlio fel Prydeinwraig,<sup>54</sup> honiad a dyfodd yn sgil poblogrwydd gwaith Sieffre o Fynwy, *Historia Regum Britanniae* yn y ddeuddegfed ganrif. Mae'n ddiddorol sylwi bod enw Maximus yn ymddangos mewn nifer o achau eraill hefyd, gan gynnwys pedwerydd llinach dogfen Harleian MS. 3859, sy'n olrhain

---

<sup>49</sup> I. Williams, gol., *Breuddwyd Maxen*, t. xv.

<sup>50</sup> R. Bromwich, gol. a chyfieithiad Saesneg, *Trioedd Ynys Prydein*, t. 343.

<sup>51</sup> G.F. Brewer a B.L. Jones, 'Popular Tale Motifs and Historical Tradition in Breuddwyd Maxen', t. 27.

<sup>52</sup> R. Bromwich, 'The Character of the Early Welsh Tradition', t. 93 (troednodyn 1).

<sup>53</sup> A. Harbus, *Helena of Britain in Medieval Legend*, tt. 54-55.

<sup>54</sup> *ibid.*, t. 58.

llinach y tad i Anthun (Antonius), mab Maxen guletic.<sup>55</sup> Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith fod y Cymry yn awyddus iawn i hawlio cysylltiad â'r Ymerodraeth Rufeinig, a pha ffordd well o wneud hynny na chynnwys enw Maxen mewn llinach? Mewn nifer o achau eraill yn y grŵp hwn, mae llinach y teulu yn cael ei holrhain yn ôl i 'Coel Hen', sef ffigur y mae Elen yn cael ei chysylltu'n agos iawn ag ef mewn hanesion yn y ddeuddegfed ganrif,<sup>56</sup> gan gynnwys yng ngwaith Sieffre o Fynwy a drafodir nesaf.

Credir bod Sieffre o Fynwy wedi ysgrifennu ei waith enwog, *Historia Regum Britanniae*, yn y flwyddyn 1134, a bod cyfieithiad Cymraeg o'r gwaith, *Brut y Brenhinedd*, ar gael yn gynnar iawn.<sup>57</sup> Cronicl ffug-hanesyddol yw hwn sy'n olrhain hanes brenhinoedd Prydain, ac er bod honiadau Sieffre wedi'u gwrthod gan haneswyr yn ddiweddarach, mae'n bwysig cofio bod y gwaith hwn yn ddylanwadol iawn ar y pryd. Mae Sieffre yn honni bod Santes Helena yn dod o dref Colchester yn Lloegr a'i bod yn ferch i'r Brenin Coel o'r dref honno, ac er bod Sieffre yn gyfrifol am boblogeiddio'r stori hon, mae'n debyg ei bod yn seiliedig ar waith blaenorol y croniclydd Henry o Huntingdon, *Historia Anglorum* yn 1129.<sup>58</sup> Cyn hyn wrth gwrs, roedd enw Custennin Fawr wedi'i gysylltu'n agos â thref Efrog yn Lloegr ar sail y ffaith iddo gael ei gyhoeddi'n Gesar yno yn dilyn marwolaeth ei dad Custaint yn y flwyddyn 306, a'r traddodiad ei fod wedi'i eni yn Efrog. Oherwydd y cysylltiad hwn, nid oedd yn anodd datblygu chwedl bod mam Custennin Fawr, Helena, yn dod o Brydain hefyd. O ganlyniad, datblygodd Santes Helena yn ffigur pwysig yn Lloegr yn yr Oesoedd Canol, ac roedd dros 120 o eglwysi wedi'u cysegru iddi yno, gan gynnwys nifer fawr yn ardal Efrog.<sup>59</sup>

Yn *Historia Regum Britanniae*, mae Sieffre o Fynwy yn honni bod Maximus wedi'i berswadio i dderbyn y cyfrifoldeb am reoli Prydain trwy briodi aeres o Brydain, ond nid

---

<sup>55</sup> J. Matthews, 'Macsen, Maximus and Constantine', t. 444.

<sup>56</sup> A. Harbus, *Helena of Britain in Medieval Legend*, t. 54.

<sup>57</sup> Idris Llywelyn Foster, 'Sieffre o Fynwy (1090?-1155)', Y Bywgraffiadur Cymreig, Blwyddyn Cyhoeddi 1953-54 [ar-lein]. Ar gael ar: <http://yba.llgc.org.uk/cy/c-SIEF-OFY-1090.html?query=sieffre+o+fynwy&field=name> <darllenwyd 08/03/18>

<sup>58</sup> C. Kightly, *Folk Heroes of Britain* (Llundain: Thames and Hudson, 1982), t. 61.

<sup>59</sup> S. Larkin, 'Transitions in the Medieval Legends of St. Helena', t. 9.

yw Sieffre yn enwi Elen fel gwraig Maximus.<sup>60</sup> Mae'r ffaith nad yw Sieffre yn cyfeirio at Elen yn y cyswllt hwn yn awgrymu nad oedd yn ymwybodol o Elen Luyddog yn nhraddodiad Cymru, ac nad oedd awdur chwedl *Breuddwyd Maxen* yn ddyledus i waith Sieffre chwaith.<sup>61</sup> Serch hynny, mae'r cyfieithiad Cymraeg o waith Sieffre o Fynwy, *Brut y Brenhinedd*, yn enwi Elen yn ddibetrus: 'a honno a uu Elen luydawc'.<sup>62</sup> Ceir sawl gwahaniaeth pwysig rhwng *Historia Regum Britanniae* a *Breuddwyd Maxen* o ran adrodd hanes Maximus ar y cyfandir, gan gynnwys y ffaith fod y naill yn honni i Maximus ennill Llydaw yn dilyn sawl buddugoliaeth ar y cyfandir a'i rhoi i Cynan am wneud heddwch ag ef, tra bod y llall yn adrodd bod Cynan wedi gorchfygu Llydaw ei hun ar ôl ennill Rhufain i Maxen.<sup>63</sup> Mae'n bwysig nodi nad yw *Historia Regum Britanniae* yn cyfeirio at sancteiddrwydd Helena na'r chwedl amdani'n darganfod y Wir Groes gan fod yr awdur yn canolbwyntio ar ei henwi'n un o hynafiaid brenhinoedd Lloegr. Yn y cyswllt hwn, mae'n amlwg bod Sieffre wedi defnyddio Helena a'i chysylltiad honedig â Lloegr er mwyn hyrwyddo cenedlaetholdeb Prydeinig.<sup>64</sup> Fodd bynnag, mae fersiwn *Cotton Cleopatra Bv* o *Brut y Brenhinedd* yn nodi bod y gair Llyddog yn cyfeirio at bererindod Santes Helena i Gaersalem: 'y kymyrth elen verch coel y phe[r]indavt ytu gwlat gaerussalem. ac y goresgynnavd hi y wlat honno. Ac or achos hynny y gelwyd hi o hynny allan yn elen luydawc'.<sup>65</sup> Yn ôl y cofnod hwn, ymweliad Elen â Chaersalem sy'n gyfrifol am yr enw Elen Luyddog, nid unrhyw gysylltiad honedig â'r ffyrdd Rhufeinig, Sarn Helen.

Yn *Historia Regum Britanniae*, mae Sieffre hefyd yn adrodd bod 11,000 o fenywod a anfonwyd i Armorica i briodi'r dynion Prydeinig a oedd wedi gwladychu'r wlad wedi boddï yn ystod y daith yno. Mae fersiwn Sieffre o'r chwedl hon yn wahanol i'r naratif bucheddol poblogaidd sy'n adrodd bod Wrswla a'i 11,000 o wryfon wedi'u merthyru yn

---

<sup>60</sup> R. Bromwich, 'The Character of the Early Welsh Tradition', t. 109.

<sup>61</sup> R. Bromwich, gol. a chyfieithiad Saesneg, *Trioedd Ynys Prydein*, t. 343.

<sup>62</sup> I. Williams, gol., *Breuddwyd Maxen*, t. xv.

<sup>63</sup> *ibid*, tt. xii-xiii.

<sup>64</sup> S. Larkin, 'Transitions in the Medieval Legends of St. Helena', t. 17.

<sup>65</sup> J.J. Parry, gol. a chyfieithydd, *Brut y Brenhinedd, Cotton Cleopatra Bv version* (Cambridge, Massachusetts: Medieval Academy Books, 1931) [ar-lein]. Ar gael ar: [http://www.medievalacademy.org/resource/resmgr/maa\\_books\\_online/parry\\_0027.htm#hd\\_ma0027\\_head\\_005](http://www.medievalacademy.org/resource/resmgr/maa_books_online/parry_0027.htm#hd_ma0027_head_005) <darllenwyd 9/03/18>

yr Almaen. Yn ôl fersiwn Sieffre, roedd y menywod ar eu ffordd i Armorica o dan arweiniad Wrswla, a oedd wedi dyweddio â Conanus Meriadocus.<sup>66</sup> Cyn hyn, mae Sieffre yn nodi bod merch y brenin Octavius (nad yw'n cael ei henwi) wedi priodi â Maximianus o Rufain, ond bod y briodas hon wedi amddifadu Conanus, nai Octavious, rhag dod yn frenin Prydain.<sup>67</sup> I wneud iawn am hyn, mae Maximianus yn gwneud Conanus yn frenin Llydaw. Er bod sawl nodwedd debyg rhwng y fersiwn hwn â chwedl *Breuddwyd Maxen*, ceir nifer o wahaniaethau hefyd, gan gynnwys y ffaith fod Cynan yn nai i'r brenin Eudaf yn y naill ond yn fab iddo yn y llall. Hefyd, mae Sieffre wedi addasu'r chwedl am Wrswla a'r 11,000 o wryfon er mwyn egluro'r hanes am anfon gwagedd i Cynan Meiriadog a'i gyd-farchogion yn Llydaw.<sup>68</sup>

Bydd adran nesaf y bennod hon yn ystyried cyfeiriadau at Elen Luyddog mewn casgliad o gofnodion chwedlonol sydd wedi'i drefnu fesul tri, sef *Trioedd Ynys Prydein*. Mae'r fersiwn hynaf o *Trioedd Ynys Prydein* wedi'i gadw yn llawysgrif Peniarth MS.16 o'r drydedd ganrif ar ddeg, ac mae Triawd 35 yn cyfeirio at Elen Luyddog. Cyn trafod y cofnod hwn, mae'n bwysig nodi bod yr arfer o grwpio unigolion a digwyddiadau fesul tri yn boblogaidd iawn ymysg y pobloedd Celtaidd:

A marked predilection for triple groupings is discernible among the Celtic peoples from the time of their earliest records, as appears in the recurrence of the triple unity in the portrayals of Celtic divinities alike in Gaul and in Ireland.<sup>69</sup>

Mae Triawd 35 yn cyfeirio at dri llu a adawodd Brydain heb ddychwelyd wedyn, a dyma'r cofnod yn ymwneud ag Elen Luyddog: 'Tri Chyuoer a aeth o'r Enys hon, ac yn doeth dracheuyn 6r un onadunt: 6n a aeth gan Elen Luyda6c a Chynan e bra6t'.<sup>70</sup> Mae'n ddiddorol sylwi bod Cynan yn cael ei enwi'n frawd i Elen yn y triawd hwn, yn wahanol i *Historia Regum Britanniae* sy'n nodi bod Cynan yn gefnder iddi. Mewn cyfres ddiweddarach o'r Trioedd, cyfeirir at Cynan fel Cynan Meiriadog, a nodir bod y llu a

---

<sup>66</sup> E.J., Bryan, 'Ursula in the British History Tradition', *The Cult of St. Ursula and the 11,000 Virgins*, gol. J. Cartwright (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2016): tt. 103 – 139 (t. 104).

<sup>67</sup> *ibid.*, t. 104.

<sup>68</sup> I. Williams, gol., *Breuddwyd Maxen*, t. xii.

<sup>69</sup> R. Bromwich, gol. a chyfieithiad Saesneg, *Trioedd Ynys Prydein*, t. liii.

<sup>70</sup> *ibid.*, t. 81.

arweiniodd ef a'i chwaer i Lydaw yn dod o Dir Meiriadawc (Sir Ddinbych), Tir Seissyllwg (pedwar cantref Ceredigion a thri cantref Ystrad Tywi), a Thir Gŵyr a Gorwennydd (cantrefi ym Morgannwg).<sup>71</sup> Roedd traddodiadau am Elen yn fyw iawn mewn ardaloedd fel Ceredigion, Morgannwg ac Ystrad Tywi; felly roedd yn naturiol i'r triawd nodi bod y llw yn dod o'r bröydd hyn. Mae hyn yn dangos bod Elen yn cael ei chysylltu â sawl rhan o Gymru cyn i'w henw gael ei chlymu'n agos ag ardal Caernarfon yn y chwedl *Breuddwyd Maxen*. Mae'n ymddangos bod y gair 'cyfor' yn y triawd yn cyfleu'r syniad bod Ynys Prydein wedi'i hamddifadu o'i milwyr, tra bod y gair 'gormes' yn nhriawd 36 yn cyfeirio at oresgyniad yr ynys gan bobl estron maes o law. Yn ôl Bromwich,<sup>72</sup> mae'n rhesymegol dod i'r casgliad bod y triawd hwn yn seiliedig ar y stori am Maximus yn mynd â'i filwyr i'r cyfandir gan adael Prydain yn ddihamddiffyn, a oedd yn destun beirniadaeth lem gan haneswyr Rhufeinig, fel y nodwyd yn gynharach yn y traethawd hwn. Mae fersiwn gwahanol o'r triawd hwn (35R) yn cyfeirio at Elen Luyddog a Maxen Wledig yn arwain llw i 'Llychlyn': 'A'r eil a aeth gan Elen Luyda6c a Maxen Wledic hyt yn Llychlyn. Ac yn doethant byth y'r Ynys honn'.<sup>73</sup> Mae'n bur debyg bod y gair 'Llychlyn' yn golygu Llydaw (Armorica) yn y cyswllt hwn, sef cyrchfan traddodiadol llw Maxen Wledig. Mae fersiwn Llanstephan 1 o *Brut y Brenhinedd* hefyd yn cyfeirio at y llw a adawodd Ynys Prydein gydag Elen a Cynan.<sup>74</sup>

Mewn llawysgrif arall, sef Peniarth 126 a luniwyd ar ôl 1505, ceir triawd arall sy'n cyfeirio at dair Elen a adawodd Ynys Prydein:

Tair Elen aith o Ynys Brydayn: Elen verch Coil a briodes Constans ym[er]odr Rvayn, ac iddi hi bv vab, Constans vawr vab Elen, ac hi a ynillith y Groys vendegayd. Elen verch Evda ap Creadoc ap Bran ap Llyr llediayth. Pan briodes Maxen ap Llywelyn hi aith i Rvffayn gyda[g ef]. Elen chwayr Arthur: Pan aith ef i ymath a Frolo, hi aith gidaf ef ac ni thoith byth addref.<sup>75</sup>

---

<sup>71</sup> I. Williams, gol., *Breuddwyd Maxen*, t. xiii.

<sup>72</sup> R. Bromwich, gol. a chyfieithiad Saesneg, *Trioedd Ynys Prydein*, t. 84.

<sup>73</sup> *ibid.*, t. 82.

<sup>74</sup> B. F. Roberts, gol., *Brut y Brenhinedd Llanstephan MS.1 Version* (Dulyn: The Dublin Institute for Advanced Studies, 1971).

<sup>75</sup> P.C. Bartrum, 'Arthuriana from the Genealogical Manuscripts,' *Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru*, Cyfrol XIV, Rhif 2, (1965): 242-245 (t. 243), Llyfrgell Genedlaethol Cymru [ar-lein]. Ar gael ar <https://journals.library.wales/view/1277425/1282625/0> <darllenwyd 4/01/18>

Mae'r triawd hwn yn cyfeirio at Elen, merch y brenin Coel, mam Custennin Fawr a ddarganfu'r Groes fendigaid; Elen merch Eudaf, a aeth i Rufain ar ôl priodi Maxen, ac Elen chwaer Arthur. Mae'r cyfeiriad at Elen chwaer Arthur yn unigryw gan nad oes enghraifft arall ohoni mewn llawysgrifau eraill, ac nid yw Sieffre of Fynwy yn cyfeirio ati chwaith. Ceir enghraifft arall o enwi tair Elen yng ngherdd Guto'r Glyn, 'Gofyn ffaling gan Elen ferch Robert Pilstwn o'r Llannerch', ond Elen Fannog, nid Elen chwaer Arthur, yw'r drydedd Elen yn y gerdd hon.<sup>76</sup> Yn y triawd uchod, gwelir bod y traddodiadau bod Elen yn ferch i'r brenin Coel a'i bod wedi darganfod y Wir Groes wedi'u hen sefydlu bellach, sy'n enghraifft bosibl o ddylanwad pwysig *Brut y Brenhinedd*.

Mae *Bonedd y Saint* yn rhestr achau sy'n olrhain llinach seintiau a santesau cynnar Prydain. Mae'n debyg bod y rhestr wedi'i llunio yn y ddeuddegfed ganrif yn wreiddiol a bod naw fersiwn o'r testun ar gael a lluniwyd cyn tua 1514.<sup>77</sup> Mae *Bonedd y Saint* yn cyfeirio at Elen merch Eudaf fel mam Peblig Sant o Lanbeblig, sef y plwyf a oedd yn arfer bod yn gartref i'r gaer Rufeinig Segontium.<sup>78</sup> Mae eglwys Peblig Sant yn bodoli o hyd yng Nghaernarfon, ac mae'n gysylltiad amlwg arall rhwng tref Caernarfon a'r traddodiadau am Elen Luyddog.<sup>79</sup> Yn y fersiwn o *Bonedd y Saint* a gasglwyd gan Lewis Morris ym 1760, mae'n ymddangos bod y cofnod am Elen yn adleisio gwaith Sieffre o Fynwy: 'Elen 'ch Goel Godeboc a honno a gavas y groes vendigaid wedi ei chuddio o'r Itewon yn y ddaear'.<sup>80</sup> Mae'r cofnod hwn yn arwyddocaol gan ei fod yn cyfeirio at y chwedl bod y Wir Groes wedi'i chuddio yn y

---

<sup>76</sup> A. M. Edwards, golygydd y gerdd 'Gofyn ffaling gan Elen ferch Robert Pilstwn o'r Llannerch', prosiect Guto'r Glyn. net [ar-lein]. Ar gael ar: <http://www.gutorglyn.net/gutorglyn/poem/?poem-selection=053> <darllenwyd 3/02/18>

<sup>77</sup> P.C. Bartrum, 'Late Additions to Bonedd y Saint', *Transactions of the Honourable Society of Cymmrodorion*, Session 1959, (1959): 76-98 (t. 76), Llyfrgell Genedlaethol Cymru [ar-lein]. Ar gael ar <https://journals.library.wales/view/1386666/1415159/83#?xywh=62%2C1881%2C2241%2C1974> <darllenwyd 4/12/17>

<sup>78</sup> A.W. Wade-Evans, 'The 'Welsh' in Britain', *Transactions of the Honourable Society of Cymmrodorion*, Sessions 1943 and 1944, (1946): 19-34 (t. 24), Llyfrgell Genedlaethol Cymru [ar-lein]. Ar gael ar <https://journals.library.wales/view/1386666/1412710/7> <darllenwyd 10/03/18>

<sup>79</sup> Gweler Pennod 4.

<sup>80</sup> L. Morris, *Bonedd y Saint Neu Achau Saint Ynys Prydain*, (1760): tt. 417- 431 (t. 424), [ar-lein]. Ar gael ar: [http://www.celticchristianity.infinitesoulutions.com/books/Bonedd\\_y\\_Saint\\_Achau\\_LivesCambroSaint.pdf](http://www.celticchristianity.infinitesoulutions.com/books/Bonedd_y_Saint_Achau_LivesCambroSaint.pdf) <darllenwyd 1/03/18>

ddaeear yng Nghaersalem. Yn ôl y chwedl a ledaenodd yn gyflym wedyn, defnyddiwyd y groes hon i gyflawni gwyrth yn y fan a'r lle er mwyn argyhoeddi pobl mai hon oedd y groes y croeshoeliwyd yr Iesu arni.

Ceir cyfeiriad diddorol arall at Elen a Maxen mewn testun a elwir yn *Y Pedwar Brenin ar Hugain a Farnwyd yn Gadarnaf* o tua chanol y bymthegfed ganrif. Ymddengys mai diben awdur y gwaith hwn oedd ychwanegu gwybodaeth am y brenhinoedd pwysicaf a nodwyd yn *Brut y Brenhinedd*, gan ganolbwyntio'n benodol ar y dinasoedd y dywedwyd iddynt eu sefydlu.<sup>81</sup> Mae'r *Pedwar Brenin ar Hugain a Farnwyd yn Gadarnaf* yn nodi bod gan Maxen ac Elen dri o blant, sef Peblig, Custennin ac Owain:

'Ac yr Maxen hwnnw o Elen i bv dri mab, Peblic a Chustenin ac Ywain vinddv. [Ywain] a vv varchoc vrddol, a Chustennin a vv dywyssoc yMhrydain a chyff kenedl i bawb yno, a Ffeblic sydd sant anrrydeddus'.<sup>82</sup>

Mae'n ddiddorol sylwi bod y cofnod hwn yn cyfeirio at Peblig fel 'sant anrrydeddus', gan gofio bod *Bonedd y Saint* hefyd yn nodi bod Elen yn fam i Peblig Sant. Ymddengys mai'r cofnod hwn yw ffynhonnell adran gyntaf y cyfieithiad Cymraeg o Fuchedd Wrswla, *Hystoria Gweryddon yr Almaen*, sydd hefyd yn nodi bod Custennin, Ywain a Peblig yn feibion Elen ferch Eudaf.<sup>83</sup> Mae'r cofnod hwn yn mynd rhagddo i gyfeirio at tad Wrswla nas enwir: 'Eithyr ymplith eraill o vrenhinoedd y deyrnas hon yr oedd gwr sanctaidd, teilwng yn frenin ar i duedd, yr hwn a hanoedd o vrenhinawl waed yr hen Vrytanieid'.<sup>84</sup> Mae'r *Pedwar Brenin ar Hugain a Farnwyd yn Gadarnaf* hefyd yn nodi bod can mil o labrwyd, tri deg mil o farchogion, hanner can mil o ferched dynion cyffredin ac un fil ar ddeg o ferched gŵyr bonheddig wedi'u hanfon o Ynys Prydain i Armorica (Llydaw). Mae'n nodi wedyn: 'a rai hynny a aethant i Gwlen (yn) yr Almaen, ac a verthyrwyd yno

---

<sup>81</sup> P.C. Bartrum, gol. a chyfieithydd 'Y Pedwar Brenin ar Hugain a Farnwyd yn Gadarnaf', *Etudes Celtiques* 12 (1968-71): 157-194 (t. 157).

<sup>82</sup> *ibid.*, t. 172.

<sup>83</sup> J. Cartwright, 'The Middle Welsh Life of St. Ursula and the 11,000 Virgins', *The Cult of St. Ursula and the 11,000 Virgins*, gol. J. Cartwright (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2016): tt. 141 – 160 (t. 146).

<sup>84</sup> *ibid.*, t.146.



yn enw y gwir Dduw, a rai hynny yw Gweryddon yr Almaen'.<sup>85</sup> Felly, mae'r testun hwn yn cynnwys y chwedl enwog am Wrswla a'r 11,000 o ferthyron, ond nid yw'n dilyn fersiwn *Historia Regum Britanniae*, sy'n adrodd bod y menywod hyn wedi boddi ar eu ffordd i Lydaw i briodi'r marchogion Prydeinig.

Ar ôl cyfeirio at fersiwn Cymraeg canol o Fuchedd Santes Wrswla, daeth yn bryd pwyso a mesur arwyddocâd y cyfieithiad Cymraeg o hanes y Santes Helena, *Val y cauas Elen y Grog*, yn y bennod nesaf.

---

<sup>85</sup>P.C. Bartrum, gol. a chyfieithydd 'Y Pedwar Brenin ar Hugain a Farnwyd yn Gadarnaf', t. 172.

### Pennod 3 - *Val y cauas Elen y Grog*

O'r holl dystiolaeth sydd wedi goroesi yng Nghymru yn ymwneud â'r traddodiadau am Elen Luyddog/Santes Helen, gellid dadlau mai'r cyfieithiad Cymraeg canol o Helena yn darganfod y Wir Groes, *Val y cauas Elen y Grog*, sydd wedi cael y sylw lleiaf. A gellid dadlau'n gryf mai'r testun hwn yw'r dystiolaeth bwysicaf. Yn ogystal â dangos bod y traddodiad am Helena yn teithio i Gaersalem i chwilio am y groes y croeshoeliwyd yr Iesu arni ar gael yn y Gymraeg yn yr Oesoedd Canol, mae'r testun hwn yn enghraifft arall o bwysigrwydd a phoblogrwydd fersiynau Cymraeg o fucheddau/hanesion seintiau a santesau yn y cyfnod hwn. Cyfieithwyd llawer o fucheddau santesau i'r Gymraeg yn yr Oesoedd Canol, gan gynnwys santesau 'rhyngwladol' yn ogystal â brodorol, ac yn y cyswllt hwn mae geiriau Jane Cartwright yn allweddol bwysig:

'Gwyrthiau a phwerau'r santesau oedd yn bwysig i'r bobl gyffredin ac ni fyddent wedi bod mor ymwybodol â ni, efallai, mai *cyfieithiadau yw* Bucheddau Marged, Catrin, Martha, Mair Fadlen a Mair o'r Aiff'.<sup>86</sup>

Yn ddiau, gellir ychwanegu enw Helena at y rhestr hon o santesau, gan y byddai'r wyrth a oedd yn gysylltiedig â darganfod y Wir Groes wedi creu cryn argraff ar bobl Cymru yn yr Oesoedd Canol. Mae *Val y cauas Elen y Grog* yn dystiolaeth bod Cymru'n rhan o draddodiad pwysig a chwbl ryngwladol yn ymwneud â Santes Helena yn yr Oesoedd Canol, ac mae'n werth cofio bod yr *Inventio Crucius* (darganfod y Wir Groes) wedi parhau i fod yn arwyddocaol iawn gydol y cyfnod hwn.<sup>87</sup>

Cyfieithiadau o'r Lladin yw *Ystoria Addaf a Val y cauas Elen y Grog*, ac roedd yr hanesion hyn yn boblogaidd iawn yn yr Oesoedd Canol, gyda'r fersiynau Lladin yn cael eu cyfieithu i tua 12 o ieithoedd, gan gynnwys Ffrangeg, Eidaleg, Saesneg a Gwyddeleg yn ogystal â'r Gymraeg.<sup>88</sup> Heb os, dyma dystiolaeth glir o bwysigrwydd rhyngwladol yr hanesion hyn, ac mae'r ffaith fod Cymru yn ymddangos yn y rhestr yn arwyddocaol iawn. Ymddengys fod traddodiadau yn ymwneud â'r pren y croeshoeliwyd Crist arno

---

<sup>86</sup> J. Cartwright, *Y Forwyn Fair, Santesau a Llesion – Agweddau ar Wryfyddod a Diweirdeb yng Nghymru'r Oesoedd Canol*, t. 92.

<sup>87</sup> S. Larkin, 'Transitions in the Medieval Legends of St. Helena', t. 14.

<sup>88</sup> T.G. Jones, *Ystoria Addaf a Val y cauas Elen y Grog: tarddiad, cynnwys ac arddull y testunau Cymraeg a'u lledaeniad* (Traethawd MA heb ei gyhoeddi, Prifysgol Cymru Aberystwyth, 1936), t. xxii.

wedi dod yn boblogaidd o'r ddeuddegfed ganrif ymlaen wrth i arwyddocâd y groes gynyddu a lledaenu: 'Daeth y groes yn brif symbol y grefydd Gristnogol'.<sup>89</sup> Rhaid cofio, wrth gwrs, mai proses raddol oedd hon gan fod y groes wedi'i hystyried yn symbol o gywilydd i ryw raddau yng nghyfnod Crist ei hun, gan ei bod yn cael ei defnyddio i groeshoelio drwgweithredwyr. Mae'r testun Lladin gwreiddiol *Inuentio Sancte Crucis* yn ymddangos mewn amryw o llawysgrifau a ysgrifennwyd yn y ddeuddegfed ganrif a'r drydedd ganrif ar ddeg, a cheir fersiynau ohono mewn llawysgrifau a gedwir yn Llundain a nifer o lyfrgelloedd rhyngwladol.<sup>90</sup> Cafodd y fersiwn Cymraeg, *Val y cauas Elen y Grog*, ei gopïo'n helaeth, ac mae'r testun cyflawn ar gael mewn naw llawysgrif, gan gynnwys Peniarth 5, Peniarth MS 14 a llawysgrif Llanstephan MS 27.<sup>91</sup> Weithiau mae *Ystoria Addaf* (hanes pren y Wir Groes ar hyd y canrifoedd, o gyfnod Adda ymlaen) yn ymddangos yn yr un llawysgrif â *Val y cauas Elen y Grog* gan fod y ddau destun yn ymwneud â hanes y Groes Sanctaidd.<sup>92</sup> Mae'r ffaith fod *Val y cauas Elen y Grog* ar gael mewn naw llawysgrif a bod *Ystoria Addaf* ar gael mewn 22 o llawysgrifau yn dystiolaeth gadarn o bwysigrwydd yr hanesion hyn yng Nghymru'r Oesoedd Canol: "Tystia'r copïo mynych a fu ar y chwedlau hyn yn Gymraeg iddynt fod yn dra chymeradwy yng Nghymru unwaith".<sup>93</sup>

Yn ei draethawd MA rhagorol ar *Ystoria Addaf a Val y cauas Elen y Grog* ym 1936, mae Thomas Gwynn Jones yn defnyddio'r testun ym Mheniarth 5 o'r bedwaredd ganrif ar ddeg sy'n cynnwys y ddwy chwedl, gan ei osod ochr yn ochr â fersiwn Lladin a ymddangosodd yn *Acta Sanctorum*, sef casgliad helaeth o chwedlau am ferthyron a seintiau. Yn wahanol i nifer o gyfieithiadau Cymraeg Canol o fucheddau santesau, gan gynnwys buchedd Wrswla, *Hystoria Gweryddon yr Almaen*, a gyfieithwyd gan Syr Huw Pennant,<sup>94</sup> nid oes sicrwydd ynglŷn â phwy a oedd yn gyfrifol am gyfieithu *Ystoria*

---

<sup>89</sup> *ibid.*, t. xii.

<sup>90</sup> *ibid.*, t. xviii.

<sup>91</sup> *ibid.*, t. xxix-lv.

<sup>92</sup> D. Johnston, *Llên yr Uchelwyr – Hanes Beirniadol Llenyddiaeth Gymraeg 1300-1525* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2005), t. 441.

<sup>93</sup> T.G. Jones, 'Ystoria Addaf a Val y cauas Elen y Grog: tarddiad, cynnwys ac arddull y testunau Cymraeg a'u lledaeniad', t. xxviii.

<sup>94</sup> J. Cartwright, 'The Middle Welsh Life of St. Ursula and the 11,000 Virgins', *The Cult of St. Ursula and the 11,000 Virgins*, t. 142.

*Addaf a Val y cauas Elen y Grog* ym Mheniarth 5. Serch hynny, mae safon y cyfieithu/addasu Cymraeg yn uchel iawn, fel y noda Thomas Gwynn Jones:

'Mewn brawddegau byrion, cwta yr ysgrifenasant fel rheol. Os camgyfieithwyd gair neu ymadrodd ambell dro a dal yn rhy dynn at y Lladin yn awr ac eilwaith, ceir hefyd ddigon o brofion fod y cyfieithydd, pwy bynnag oedd, yn gryn feistr ar ysgrifennu Cymraeg'.<sup>95</sup>

Mae'n ddiddorol nodi bod y fersiwn o *Val y cauas Elen y Grog* sy'n ymddangos ym Mheniarth MS14 yn cynnwys rhagymadrodd sy'n cyfeirio at Elen Luyddog nas ceir yn fersiwn Peniarth 5: 'Llyma Val y cauas elen luyddawc ach Custennin y mab prenn y groc'.<sup>96</sup> Nid oes cyfeiriad at 'elen luyddawc' yn y stori ei hun, felly ymddengys mai'r ysgrifennwr ei hun sy'n gyfrifol am y cyfeiriad hwn. Hefyd, mae'n ddiddorol sylwi bod testunau diweddarach o *Val y cauas Elen y Grog* yn Llanstephan 117 a Pheniarth 27 yn cyfeirio at Elen fel merch Coel Godebog, a dyma'r ymgais gyntaf yn y chwedlau i wneud Elen a Chustennin yn gymeriadau Prydeinig.<sup>97</sup>

I raddau helaeth, mae'r chwedl am Helena yn darganfod y Wir Groes yng Nghaersalem yn deillio o adroddiad o'r digwyddiad honedig a ysgrifennwyd am y tro cyntaf gan Gelasius, Esgob Caesarea, ond a ddatblygwyd maes o law gan haneswyr, athronwyr a diwinyddion dylanwadol fel Rufinus, Socrates, Sozomen a Theodoret.<sup>98</sup> Sylfaen y stori hon yw bod Custennin Fawr wedi troi'n Gristion, bod ei fam Helena wedi dilyn ei esiampl, a'i bod wedi teithio i Gaersalem tua diwedd ei hoes o gwmpas y flwyddyn 326/327 i chwilio am y Wir Groes. Canfu Helena groes yr Iesu, ynghyd â chroesau'r ddau leidr a groeshoeliwyd gyda'r Iesu, o dan gerflun o'r dduwies Fenws, ac ar ôl i groes yr Iesu amlygu ei hun trwy gyflawni gwyrth, adeiladwyd Eglwys y Beddrod yno, canfu Helena hoelion y groes, a gosodwyd rhai ohonynt yn helmed Custennin Fawr i'w amddiffyn ar faes y gad.<sup>99</sup> Buan iawn y byddai'r chwedl hon wedi tyfu a lledaenu wedyn gan ei bod yn ymwneud â chrair mwyaf sanctaidd a dramatig y ffydd Cristnogol, sef y

---

<sup>95</sup> T.G. Jones, 'Ystoria *Addaf a Val y cauas Elen y Grog*: tarddiad, cynnwys ac arddull y testunau Cymraeg a'u lledaeniad', t. lxxxvi.

<sup>96</sup> *ibid.*, t. xxx.

<sup>97</sup> *ibid.*, t. lxii.

<sup>98</sup> S. Larkin, 'Transitions in the Medieval Legends of St. Helena', t. 29.

<sup>99</sup> *ibid.*, t. 29.

groes yr honnwyd i'r lesu gael ei groeshoelio arni.<sup>100</sup> Mae'n hawdd deall pam y byddai'r fersiwn Cymraeg o'r chwedl, *Val y cauas Elen y Grog*, wedi bod mor boblogaidd yn yr Oesoedd Canol, gan fod hon yn stori gwbl syfrdanol a rhamantaidd, sy'n dal i apelio hyd heddiw. Hefyd, fel y gwelir maes o law, tyfodd chwedlau eraill o gwmpas y Wir Groes wedyn, gan gynnwys chwedl sy'n honni bod darn o'r Wir Groes ('Y Groes Naid') wedi dod i feddiant tywysogion Cymru yn yr Oesoedd Canol.

Yn gyffredinol, ymddengys fod testun *Val y cauas Elen y Grog* ym Mheniarth 5 yn dilyn y fersiwn Lladin yn agos. Fel y nodwyd yn gynharach, mae'r cyfieithiad ei hun o safon uchel, ac mae modd deall y rhan fwyaf ohono hyd heddiw. Ar ddechrau'r chwedl, ceir sôn am Gustennin yn gweld arwydd y groes yn yr awyr wrth arwain ei filwyr yn erbyn lluoedd estron ger afon Danubin: 'Ac yno y gueley aruyd croc Grist guedy ryossot yn eglur o diruaur leuer'.<sup>101</sup> Dyma fan cychwyn y cyfan, gan fod y weledigaeth hon o'r groes yn gweddnewid Custennin a'i harwain at y ffydd Gristnogol. Wedyn cyfeirir at y gred ar y pryd fod yr Iddewon wedi cuddio'r Wir Groes yn y ddaear yng Nghaersalem: 'Ac yna y cudy6ys yr ydeon yn lle dirgel yn y daear y groc y diodeuau crist arney'.<sup>102</sup> Dyma gyrchfan Helena yn ei hymgais i ganfod y Wir Groes, ac mae'n ymddangos bod ei mab, Custennin, wedi'i hanfon yno i chwilio am y groes ar ôl iddo droi at y ffydd Gristnogol: 'yd anuones yntev y vam ef elen oed honno. y geissam y kyssegredic prenn y groc yr arglwyd. ac y adeilat eglwys yno'.<sup>103</sup> Mae'r Iddewon yn dewis Jwdas i ateb cwestiynau Helena am y groes, ac er ei fod yn gwrthod cydweithredu yn y dechrau, mae'n gwneud hynny ar ôl cael ei daflu i ogof am saith diwrnod. Mae Helena yn gofyn iddo am wybodaeth am guddfau y Wir Groes, ac mae darn y stori sy'n adrodd y darganfyddiad yn ddramatig iawn: 'A phan dynoyt or ogof y kerduys hyt y lle yd oed croc crist yn gor6ed ynda6'.<sup>104</sup>

---

<sup>100</sup> C. Kightly, *Folk Heroes of Britain*, t. 59.

<sup>101</sup> T.G. Jones, 'Ystoriya Addaf a Val y cauas Elen y Grog: tarddiad, cynnwys ac arddull y testunau Cymraeg a'u lledaeniad', t. 29.

<sup>102</sup> *ibid.*, t. 28.

<sup>103</sup> *ibid.*, t. 31.

<sup>104</sup> *ibid.*, t. 46.

O gofio arwyddocâd y crair, mae'n hawdd dychmygu y byddai'r disgrifiad hwn o Groes Crist yn gorwedd yn yr ogof wedi creu cryn argraff ar bobl yn yr Oesoedd Canol. Ond yn ddiau, mae'r darn sy'n dilyn ac yn honni bod y groes wedi atgyfodi person marw yn mynd â'r chwedl i lefel uwch: 'A phan dodes iudas croc yr arglwyd ar y maro y kyuedes yn vyo yn diannot'.<sup>105</sup> Mae'r digwyddiad honedig hwn yn cysylltu'r Wir Groes, a Helena, â gwyrth atgyfodi, gan ddyrchafu statws y chwedl hon a Helena ei hun yn ddirfawr. Rhoddwyd cryn fri ar wyrthiau gan seintiau a santesau yn yr Oesoedd Canol, ac mae nifer o destunau Cymraeg canol eraill yn cyfeirio at wyrthiau, yn enwedig felly *Gwyrthyeu e Wynvydedic Veir* ym Mheniarth 14, sy'n cyfeirio at yr wyth gwyrth ar hugain sy'n dangos bod y Forwyn Fair yn bwerus ac yn dosturiol.<sup>106</sup> Hefyd, mae nifer o santesau brodorol Cymru yn gysylltiedig â gwyrthiau, yn enwedig Santes Gwenfrewy a'i ffynnon iachusol yn Nhreffynnon, a ddaeth yn gyrchan hynod boblogaidd i bererinion yn yr Oesoedd Canol.<sup>107</sup> Byddai'r wyrth sy'n cael ei hadrodd yn *Val y cauas Elen y Grog* wedi argyhoeddi pobl gyffredin Cymru o bŵer y groes a phwysigrwydd y fenyw a'i darganfu.

Tua diwedd *Val y cauas Elen y Grog*, ceir cyfeiriad at yr hoelion a ddefnyddiwyd i groeshoelio'r Iesu, a'r ffaith fod Helena wedi'i chyfarwyddo i'w gosod yn arfwisg ei mab Custennin er mwyn ei amddiffyn wrth frwydro:

'Kymer yr hoelyon hynn a gŕna onadunt trostrev yn ffrŕynn march y brenin a rei hynn a vydant aruev yn aller gwrthŕynebu vdunt kanys ohonunt y byd budugolyaeth y brenin'.<sup>108</sup>

Credwyd ar y pryd bod creiriau'r Wir Groes wedi'u rhannu rhwng Caersalem a Constantinople, ond buan iawn y datblygodd pob math o chwedlau a thraddodiadau yn ymwneud â'r hoelion a darnau o'r pren ledled y byd Cristnogol. Yng Nghymru, datblygodd chwedl fod offeiriad o'r enw Neotus wedi dod â darn o'r Wir Groes yn ôl i

---

<sup>105</sup> *ibid.*, t. 50.

<sup>106</sup> J. Cartwright, *Feminine Sanctity and Spirituality in Medieval Wales* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2008), tt. 8-66 (t. 31).

<sup>107</sup> T.W. Pritchard, *St Winefride, Her Holy Well and the Jesuit Mission, c.650-1930* (Wrecsam: Bridge Books, 2009) t. 10.

<sup>108</sup> T.G. Jones, 'Ystorya Addaf a Val y cauas Elen y Grog: tarddiad, cynnwys ac arddull y testunau Cymraeg a'u lledaeniad', t. 56.

Gymru o'r Tir Sanctaidd a bod y crair gwerthfawr yn eiddo i Dywysogion Cymru maes o law.<sup>109</sup> Yn ôl y chwedl, roedd Tywysog Llywelyn ap Gruffydd yn cario darn o'r Wir Groes mewn creirfa pan gafodd ei ladd yng Nghilmeri ym 1282, a throsglwyddwyd y 'Groes Naid' i'r brenin Edward I wedyn, a'i chadw yn Abaty San Steffan.<sup>110</sup> Roedd y 'Groes Naid' yn bwysig iawn i frenhinoedd Lloegr am ganrifoedd nes yr ymddengys iddi gael ei dinistrio ym 1552 yn ystod teyrnasiad Edward VI. Datblygodd traddodiadau tebyg am greiriau'r Wir Groes mewn gwledydd eraill, ac fel mae Susan Larkin yn ei nodi, daeth enw Helena yn gyfystyr â'r groes i raddau helaeth:

'People remembered and honoured Helena's pilgrimage to Jerusalem mainly because they came to believe she had discovered the cross and nails with which Christ was crucified. These were the most important relics in Christendom and helped start the relic craze that lasted throughout the Middle Ages'.<sup>111</sup>

Ar ddiwedd *Val y cauas Elen y Grog*, nodir bod Helena wedi darganfod y Wir Groes ar y trydydd dydd wedi Calan Mai: 'yr h6n y caffat y kyssegredic groc trydydd wedy calan mei'.<sup>112</sup> Aeth Eglwys Rufain ati i wneud y diwrnod hwn yn Wyl y Grog ('*Inventio Crucis*') wedyn, ond mae'r Calendr Cymreig yn nodi mai Medi 14 yw dyddiad Gwyl y Grog. Y rheswm tebygol am hyn yw bod darn o'r groes a gafodd ei ddwyn o'r teml fawr wedi'i ddychwelyd ar y dyddiad hwn yn y flwyddyn 629.<sup>113</sup> Nid oes syndod bod Eglwys Rufain wedi gwneud Helena yn santes maes o law ar sail ei darganfyddiad honedig cwbl syfrdanol.

Mae'n ddiddorol nodi bod y chwedl wedi parhau i gael ei chopio mewn llawysgrifau Cymraeg fel Peniarth MS 214 rhwng tua 1609 a 1612. Mae'n debyg mai John Jones Gellilyfdy a oedd yn gyfrifol am y copi hwn, sydd â'r teitl *Hanes y Groes Vendiged ag y modd y kafodd Elen Lveddog y hi*.<sup>114</sup> Hefyd, ceir cyfeiriad at y chwedl am Helena a'r Wir

---

<sup>109</sup> W. Coombe Tennent, 'Croes Naid', *Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru*, Cyfrol VII, (1951/52): 102-115 (t. 103), Llyfrgell Genedlaethol Cymru [ar-lein]. Ar gael ar <https://journals.library.wales/view/1277425/1279347/17> <darllenwyd 18/01/18>

<sup>110</sup> *ibid.*, t. 103.

<sup>111</sup> S. Larkin, 'Transitions in the Medieval Legends of St. Helena', t. 25.

<sup>112</sup> T.G. Jones, '*Ystorya Addaf a Val y cauas Elen y Grog*: tarddiad, cynnwys ac arddull y testunau Cymraeg a'u lledaeniad', t. 58.

<sup>113</sup> *ibid.*, t. lxi.

<sup>114</sup> *ibid.*, t. li.

Groes yn *Hystoria Adrian ac Ipotis*, sy'n fersiwn Cymraeg o ymddiddan rhwng meistr a disgybl yn ymwneud â phynciau crefyddol.<sup>115</sup> Ymddengys fod y testun Cymraeg hwn yn gyfieithiad o fersiwn mydryddol Saesneg a luniwyd tua dechrau'r bedwaredd ganrif ar ddeg.<sup>116</sup> Mae *Hystoria Adrian ac Ipotis* yn nodi rhestr o resymau pam y dylid ymptydio ar ddydd Gwener, ac mae'r unfed rheswm ar ddeg yn cyfeirio at Helena: 'dy6 gwener y kauas Elen Luydya6c y groc rydaroedd yr eide6onn yr chudya6 yn y dayar achos y diodefuei Crist arnei'.<sup>117</sup> Hefyd, cyfeirir at Elen yn darganfod y Wir Groes yn y llyfr cyntaf erioed a argraffwyd yng Nghymru, sef *Y Drych Cristianogawl*. Mae hanes argraffu'r llyfr Cymraeg Catholig cynnar hwn mewn ogof ar Benrhyn Rhiwledyn tua 1586/87 yn hynod ddiddorol a dramatig, ac mae'r llyfr ei hun yn canolbwyntio ar ddysgeidiaeth Eglwys Rufain am y Pedwar Peth Olaf – Angau, Dydd y Farn, Uffern a'r Nefoedd.<sup>118</sup> Mae'r cyfeiriad at Elen yn Rhagymadrodd y llyfr hwn yn ddiddorol iawn:

'Y pedwerydd Gorchafiaeth oedd, ddamwin i Elen y Frenhines santeiddiol a mam Gonstennin drwy weledigaeth fyned i Gaerusalem o ynys Brydein, a dwyn odd i yno y groes fendigaid, a oedd wedy ei chladdu ai chuddio mywn tommen dros ddeucant o flynyddoedd drwy fawrddygnieth yr Iddewon.'<sup>119</sup>

Gwelir yma fod Elen yn cael ei disgrifio fel 'brenhines santeiddiol' a deithiodd o Brydain i chwilio am y Wir Groes, ac mae'n amlwg bod yr awdur yn awyddus i gysylltu Elen â Chymru/Prydain gan mai nod y llyfr oedd annog y Cymry i gadw at y ffydd Gatholig. Yn wir, mae'r awdur yn nodi'n gwbl blaen mai Cymraes oedd Elen wrth sôn am y gwyrthiau yn ymwneud â'r Wir Groes: 'Gwedy cloddio'r Groes or dommenn ai adnabod drwy wyrthieu odd y wrth groeseu r lladron, Elen y Gymraes ar Santes ai rhannodd'.<sup>120</sup> Rhaid cofio mai un o

---

<sup>115</sup> T. Jones, 'The Book of the Anchorite of Llanddewi Brefi', *Cardiganshire Antiquarian Society - Transactions*, Volume XII, (1937): 62-81 (t. 72), Llyfrgell Genedlaethol Cymru [ar-lein]. Ar gael ar <https://journals.library.wales/view/1177372/1178863/4#?xywh=235%2C1738%2C2478%2C2179> <darllenwyd 19/02/18>

<sup>116</sup> D. Johnston, *Llên yr Uchelwyr – Hanes Beirniadol Llenyddiaeth Gymraeg 1300-1525*, t. 440.

<sup>117</sup> T.G. Jones, 'Ystoria Addaf a Val y cauas Elen y Grog: tarddiad, cynnwys ac arddull y testunau Cymraeg a'u lledaeniad', t. lxvi.

<sup>118</sup> 'Y Drych Cristianogawl', erthygl ar wefan Llyfrgell Genedlaethol Cymru [ar-lein]. Ar gael ar <https://www.llgc.org.uk/cy/darganfod/oriel-ddigidol/deunydd-print/y-drych-cristianogawl/> <darllenwyd 20/03/18>

<sup>119</sup> G.H. Hughes, gol., *Rhagymadroddion* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1976), t. 51.

<sup>120</sup> *ibid.*, t. 51.



ddibenion penodol awdur *Y Drych Cristianogawl* oedd clodfori'r Eglwys Gatholig ar adeg o erledigaeth ar y ffydd, ac yn ogystal ag Elen, mae awdur y llyfr hwn yn honni bod Wrswla yn Gymraes hefyd.<sup>121</sup>

Serch hynny, yn yr un modd â'r traddodiadau am gynifer o seintiau a santesau eraill, ymddengys fod chwedlau fel *Ystorya Addaf a Val y cauas Elen y Grog* wedi'u beirniadu a'u hanwybyddu yng Nghymru i raddau helaeth yn dilyn y Diwygiad Protestannaidd. Cymaint oedd sêl awduron yng Nghymru dros y ffydd newydd nes i lawer ohonynt feirniadu traddodiad y seintiau a'r santesau yn hallt, ac mae'n debyg iawn bod hyn wedi cael dylanwad mawr ar farn pobl gyffredin: 'Pan wneid cyfeiriad at y chwedlau gan ysgrifenyddyr yr unfed ganrif ar bymtheg, pwysleisient yn ogystal y loes oedd y cyfryw yn ei beri iddynt'.<sup>122</sup> Eto i gyd, mae'r ffaith fod *Val y cauas Elen y Grog* wedi goroesi mewn cynifer o lawysgrifau Cymraeg yn tystio i'r ffaith fod y chwedl hon yn bwysig i'r Cymry yn yr Oesoedd Canol. Yn yr un modd â'r cyfieithiadau Cymraeg o fucheddau seintiau a santesau, mae'n werth cofio bod y testunau hyn yn rhan bwysig o etifeddiaeth lenyddol Cymru.

---

<sup>121</sup> *ibid.*, t. 51.

<sup>122</sup> T.G. Jones, '*Ystorya Addaf a Val y cauas Elen y Grog*: tarddiad, cynnwys ac arddull y testunau Cymraeg a'u lledaeniad', t. lxxiv.

## Pennod 4 - Gwaith Celf, Eglwysi a Ffynhonnau

Mae'n debygol iawn y byddai'r stori am Helena yn darganfod y Wir Groes wedi ysbrydoli gwaith celf yng Nghymru yn yr Oesoedd Canol, fel mewn cynifer o wledydd eraill. Yn anffodus, ychydig iawn o dystiolaeth o waith o'r fath sydd wedi goroesi heddiw, ond ceir un enghraifft ym meddrod teulu Bulkeley ym Miwmares. Mae'n debyg bod y gofeb hon i William Bulkeley a'i wraig Elen yn perthyn i tua diwedd y bymthegfed ganrif, ac mae'n cynnwys delweddau o nifer o seintiau a santesau.<sup>123</sup> Yn anffodus, mae treigl y blynyddoedd wedi gadael ei ôl ar y gofeb hon bellach, ac mae'n anodd adnabod pob un o'r seintiau a santesau er sicrwydd. Serch hynny, fel y noda Madeleine Gray yn ei gwaith ymchwil diweddar, ymddengys mai portread o Santes Helena yw'r ffigur yn y beddrod sy'n cario'r groes: 'The figures of Patrick, Margaret, Helena and Christopher are quite incontrovertible'.<sup>124</sup> Mae sawl rheswm posibl dros gynnwys portread o Helena yn y beddrod hwn, gan gynnwys y ffaith syml ei bod yn rhannu'r un enw ag Elen Bulkeley; cysylltiad Helena â'r ffocws cynyddol ar natur gorfforol y croesholiad tua diwedd yr Oesoedd Canol, a'r ffaith ei bod yn cynrychioli teyrngarwch y teulu i'r Tuduriaid ar adeg o ansicrwydd gwleidyddol tua diwedd y bymthegfed ganrif.<sup>125</sup> Yn y cyswllt hwn, er mwyn cryfhau hawl Harri Tudur i'r goron, ymddengys y bu ymdrechion i geisio olrhain ei achau yn ôl i frenhinoedd cynnar Prydain, gan gynnwys Coel Hen, tad honedig Helena yn ôl y chwedl a ddatblygwyd gan Sieffre ac eraill.<sup>126</sup> Felly, mae'n bosibl bod Helena yn symbol o'r cysylltiad honedig hwn.

Beth bynnag yw'r rheswm, mae'r ffaith fod Helena wedi'i chynnwys yn arwyddocaol, ac mae'n bosibl iawn y byddai portreadau tebyg eraill ohoni wedi bodoli yng Nghymru yn yr

---

<sup>123</sup> C.R.Hand, 'Llanfaes Friary and its Mystery Monument', *Archaeologia Cambrensis*, Vol. LXXIX, Seventh Series, Vol. IV, (1924): 125-188 (t. 163), Llyfrgell Genedlaethol Cymru [ar-lein]. Ar gael ar <https://journals.library.wales/view/4718179/4731052/0#?xywh=-682%2C616%2C3462%2C3045> <darllenwyd 10/03/18>

<sup>124</sup> M. Gray, 'Decoding the 'Bulkeley' tomb in Beaumaris', *Transactions of the Anglesey Antiquarian Society*, (January 2016): 41-57; yr erthygl ar gael ar wefan Prifysgol De Cymru (t. 11): [https://pure.southwales.ac.uk/en/publications/decoding-the-bulkeley-tomb-in-beaumaris\(7df4412e-8e4c-42be-a921-67ebad97afdc\).html](https://pure.southwales.ac.uk/en/publications/decoding-the-bulkeley-tomb-in-beaumaris(7df4412e-8e4c-42be-a921-67ebad97afdc).html) <darllenwyd 20/03/18>

<sup>125</sup> *ibid.*, t. 14.

<sup>126</sup> *ibid.*, t. 15.

Oesoedd Canol. Mae'n bur debyg y byddai unrhyw eglwysi a gysegrwyd iddi wedi cael ffigur ohoni ar yr allor, a delweddau ohoni mewn murluniau o bosibl, gan gofio bod eglwysi yn llawn delweddau o seintiau a santesau yn y cyfnod hwn. Yn anffodus, nid oes tystiolaeth o'r fath wedi goroesi, a gallwn ni ond dyfalu pa mor gyffredin oedd delweddau gweledol o Santes Helena yng Nghymru, a pha eitemau a gollwyd.

Mae'n rhaid i ni edrych i wledydd eraill i weld enghreifftiau o ddelweddau canoloesol o Santes Helena, ac mae rhestr fanwl ohonynt ar gael yn llyfr Jules Maurice.<sup>127</sup> Mae'r gwaith celf yn cynnwys darluniau, cerfluniau a murluniau sy'n adrodd hanes Helena yn darganfod y Wir Groes, ac maent i'w gweld mewn llefydd fel Rhufain, Fflorens a Fenis. Bu mestri Eidalaid fel Agnolo Gaddi a Piero della Francesca yn gwneud defnydd mawr o'r chwedl, ac mae sawl portread unigol o Helena wedi goroesi hefyd, gan gynnwys y darlun isod o tua 1495 gan un o arlunwyr y Dadeni o'r Eidal, Cima da Conegliano.<sup>128</sup>



Ffigur 1: Darlun o Santes Helena

Fel y gwelir o'r llun uchod, mae portreadau o Santes Helena yn tueddu i'w dangos yn cario'r Wir Groes, ac mewn llawer ohonynt mae'n gwisgo coron ar ei phen er mwyn cyfleu ei statws fel mam yr Ymerawdwr.<sup>129</sup> Mae hanes Helena wedi'i bortreadu mewn ffenestri lliw eglwysig hefyd, ac mae'n debyg mai'r enghraifft orau o hyn yw'r 19 panel

---

<sup>127</sup> J. Maurice, *L'Art et les Saints: Sainte Hélène* (Paris: H. Laurens, 1930).

<sup>128</sup> Cima da Conegliano, St. Helena, olew ar banel, National Gallery of Art, Washington, delwedd ar Web Gallery of Art [ar-lein]. Ar gael ar: <https://www.wga.hu/index1.html> <darllenwyd 15/03/18>

<sup>129</sup> R. Stracke, St. Helena: The Iconography, ar wefan Christian Iconography [ar-lein]. Ar gael ar: <http://www.christianiconography.info/helena.html> <darllenwyd 11/03/18>

trawiadol iawn yn eglwys hynafol St Michael yn Ashton-under-Lyne yn Lloegr. Ceir enghreifftiau modern o ffenestri lliw sy'n portreadu Helena mewn eglwysi yng Nghymru heddiw, gan gynnwys yn Eglwys Santes Brigid, Bro Morgannwg, Eglwys Sant Peblig, Caernarfon, ac Eglwys Sant Pedr, Llanbedr Pont Steffan.<sup>130</sup>

Er nad yw'n ymddangos bod llawer o eglwysi wedi'u cysegru i Santes Elen/Helen yng Nghymru yn yr Oesoedd Canol, mae'n anodd bod yn sicr am hyn oherwydd y posibilrwydd bod cysegriadau wedi newid ar ôl y Diwygiad Protestannaidd, neu nad yw'r eglwysi wedi goroesi. Un ardal sydd â chysylltiad â'r santes yw plwyf Llanellen yn Sir Fynwy, ac mae eglwys ganoloesol Santes Helen yn sefyll hyd heddiw yn y pentref hwn ger y Fenni.<sup>131</sup> Lleolir yr eglwys uwchben glannau Afon Wysg, ac er iddi gael ei hailadeiladu i raddau helaeth yng nghanol y bedwaredd ganrif ar bymtheg, credir bod ei sylfeini'n dyddio i'r drydedd ganrif ar ddeg.<sup>132</sup> Mae gwybodaeth am yr eglwys hon yn *The National Gazetteer of Great Britain and Ireland*<sup>133</sup> ym 1868 yn nodi bod yr eglwys yn y pentref bach amaethyddol wedi'i chysegru i Santes Helen. Eglwys hynafol arall sydd â chysylltiad ag Elen yw Eglwys Sant Peblig yng Nghaernarfon. Fel y nodwyd yn gynharach, mae ffynonellau fel *Bonedd y Saint* yn nodi bod Peblig yn fab i Elen, merch Eudaf; felly nid oes syndod bod yr eglwys hon wedi'i chysegru i Peblig o ystyried y cysylltiadau rhwng Elen â Chaernarfon. Lleolir yr eglwys yn agos i gaer Rufeinig Segontium, ac er bod sôn bod Llywelyn ap Gruffydd wedi rhoi'r eglwys i Abaty Aberconwy yn y drydedd ganrif ar ddeg, mae'r rhan fwyaf o'r adeilad presennol yn perthyn i'r bedwaredd ganrif ar ddeg.<sup>134</sup>

---

<sup>130</sup> M. Crampin, Gwydr Lliw yng Nghymru – St Helen [ar-lein]. Ar gael ar: <http://stainedglass.llgc.org.uk/main.php?icongo=GO&ref=11HH%28HELEN%29&func=showicon> <darllenwyd 20/03/18>

<sup>131</sup> Yr Eglwys yng Nghymru, Rhestr o Eglwysi [ar-lein]. Ar gael ar: <https://cym.eglwysyngnghymru.org.uk/strwythur/lleoedd/eglwysi/?id=4933> <darllenwyd 12/02/18>

<sup>132</sup> Coflein (Cofnod Henebion Cenedlaethol Cymru) – St Helen's Church, Llanellen [ar-lein]. Ar gael ar: <http://www.coflein.gov.uk/cy/site/420845/details/st-helens-church-llanellen> <darllenwyd 20/03/18>

<sup>133</sup> The National Gazetteer of Great Britain and Ireland (1868), dyfynnwyd ar wefan GENIUKI [ar-lein]. Ar gael ar: <http://www.geniuki.org.uk/big/wal/MON/Llanellen> <darllenwyd 14/03/18>

<sup>134</sup> M. Ellis a M. Dafydd, *Eglwysi Cymru*, (Talybont: Y Lolfa, 1985), t. 44.

Mae posibilrwydd hefyd fod Capel Elen wedi bodoli yng Nghaernarfon yn yr Oesoedd Canol. Wrth drafod datblygiad y traddodiad am y cysylltiad rhwng Custennin Fawr, Elen a Chaernarfon yn ei ragymadrodd i'w olygiad o *Breuddwyd Maxen*, meddai Ifor Williams: 'Erbyn y Canol Oesoedd, yr oedd yr Eglwys wedi manteisio ar y cyfle, a dywed Rowlands fod Capel *St. Helen* yn y dref yn ei ddyddiau ef'.<sup>135</sup> Y dyn y cyfeirir ato yn y dyfyniad hwn yw'r hynafiaethydd o Ynys Môn, Henry Rowlands, awdur *Mona Antiqua Restaurata* ym 1723. Ceir cyfeiriad arall at Gapel Elen yn y llyfr enwog *A Tour in Wales*, sef gwaith yr hynafiaethydd a'r teithiwr Thomas Pennant o Chwitffordd, Sir y Fflint. Yn ail gyfrol y gwaith hwn a gyhoeddwyd ym 1781 ac sy'n cofnodi taith Pennant i Eryri, mae'n sôn bod Capel Helen wedi'i leoli gerllaw caer Segontium a bod olion y capel i'w gweld o hyd.<sup>136</sup> Mae'n ddiddorol sylwi hefyd fod Pennant yn cyfeirio at ffynnon Helen yn ei gofnod, gan nodi ei bod wedi'i lleoli ar yr un safle â'r capel.<sup>137</sup> Mae'n debyg bod y ffynnon hon yn parhau i gael ei defnyddio yn y 1920au, ac mae'r gweddillion ar dir preifat bellach: "Mae'r ffynnon mewn gardd tŷ o'r enw Llys Helen lle mae'r dŵr yn cronni mewn baddon o lechfaen gyda grisiau yn arwain i lawr iddo".<sup>138</sup> Mae'r safle canoloesol hwn ar gyrion pentref Llanbeblig yn hynod ddiddorol o safbwynt y traddodiadau am Elen yn ardal Caernarfon. Mae'n rhaid nodi hefyd fod ffynnon arall sy'n dwyn enw Helen ger Sarn Elen uwchben pentref Croesor yn ardal Caernarfon, ond nad oes unrhyw draddodiad canoloesol yn gysylltiedig â hon.<sup>139</sup> Mae'r enw Elen/Helen yn ymddangos yn rheolaidd yn ardal Caernarfon, e.e. Coed Helen, Llwyn Helen, Sarn Helen ac ati, ond mae amheuaeth mawr ynglŷn â faint ohonynt sydd â chysylltiadau canoloesol.

Ardal ddiddorol arall sydd â chysylltiadau canoloesol posibl ag Elen/Helen yw Llanelen ar Benrhyn Gŵyr. Er nad yw'r lle hwn yn bodoli bellach, yn ôl un chwedl roedd pentref

---

<sup>135</sup> I. Williams, gol., *Breuddwyd Maxen*, t. xx.

<sup>136</sup> T. Pennant, *A Tour in Wales Volume II* (Llundain: Henry Hughes, 1781) - Copi digidol Llyfrgell

Genedlaethol Cymru [ar-lein]. Ar gael ar:

<https://viewer.library.wales/4692660#?c=0&m=0&s=0&cv=9&xywh=1205%2C998%2C1999%2C3066>  
<darllenwyd 23/03/18>

<sup>137</sup> E. Gruffydd, 'Ffynhonnau Thomas Pennant', *Llygad y Ffynnon – Cylchlythyr Cymdeithas Ffynhonnau Cymru*, Rhif 26 Haf 2009 [ar-lein]. Ar gael ar: [http://www.fffynhonnau.cymru.org.uk/26\\_haf\\_2009.htm](http://www.fffynhonnau.cymru.org.uk/26_haf_2009.htm)  
<darllenwyd 24/03/18>

<sup>138</sup> *Ibid.*

<sup>139</sup> Archwilio – Cofnod Amgylchedd Hanesyddol Ymddiriedolaeth Archaeolegol Gwynedd [ar-lein]. Ar gael ar: [http://www.cofiadurcah.cymru.org.uk/arch/gat/cym/gat\\_interface\\_cym.html](http://www.cofiadurcah.cymru.org.uk/arch/gat/cym/gat_interface_cym.html) <darllenwyd 24/03/18>

ac eglwys yn arfer sefyll ar y safle cyn i griw o forwyr a oedd wedi'u heintio â'r pla ymweld â'r lle yn dilyn llongdrylliad, gan beri i'r trigolion farw neu ffoi.<sup>140</sup> Mae gwaith archeolegol wedi'i gwblhau ar y safle yn ddiweddar i geisio dod o hyd i dystiolaeth yn ymwneud â bodolaeth eglwys ganoloesol. Mae canlyniadau'r gwaith hwn wedi bod yn ddiddorol a dadlennol iawn: 'Evidence was discovered at Llanelen for ecclesiastical and domestic occupation from the sixth century to the present day'.<sup>141</sup> Mae'r posibilrwydd bod eglwys ganoloesol wedi'i chysegru i Elen ar y safle hwn yn gyffrous, yn enwedig o ystyried y traddodiadau sy'n ei chysylltu ag ardal Gŵyr, fel y cofnod yn *Trioedd Ynys Prydein* bod Elen a'i brawd Cynan wedi casglu llu i deithio i Lydaw o lefydd fel Gŵyr. Mae'n anodd profi bodolaeth neu gysegriad eglwys o'r fath bellach, ond amser a ddengys a ddaw unrhyw dystiolaeth arall i'r fei yn y cyswllt hwn yn y dyfodol. Rydym ar dir cadarnach o lawer wrth nodi'r eglwysi modern sydd wedi'u cysegru i Helen yng Nghymru heddiw. Mae tair eglwys Gatholig wedi'u cysegru i'r santes, sef Eglwys Dewi Sant a Santes Helen yng Nghaernarfon, Eglwys Santes Helen yn y Barri ac Eglwys Santes Helen yng Nghaerffili.<sup>142</sup> Mae dwy eglwys wedi'u cysegru iddi gan yr Eglwys yng Nghymru, sef Eglwys Santes Helen yn Sir Fynwy ac Eglwys Santes Helen ym Mhenisarwaun.<sup>143</sup>

---

<sup>140</sup> Crwydro Gŵyr – Llanelen [ar-lein]. Ar gael ar: <http://www.explore-gower.co.uk/llanelen> <darllenwyd 24/03/18>

<sup>141</sup> Schlesinger, A., *et al.*, 'An early church and medieval farmstead site: excavations at Llanelen, Gower', *Archaeological Journal*, Volume 153, 1996 – Issue 1 (Crynodeb) [ar-lein]. Ar gael ar: <https://www.tandfonline.com/doi/abs/10.1080/00665983.1996.11078731?needAccess=true&journalCode=raij20> <darllenwyd 23/03/18>

<sup>142</sup> Catholic Directory of England and Wales [ar-lein]. Ar gael ar: <http://directory.cbcew.org.uk/> <darllenwyd 25/03/18>

<sup>143</sup> Yr Eglwys yng Nghymru, Rhestr o Eglwysi [ar-lein]. Ar gael ar: <https://cym.eglwysyngnghymru.org.uk/strwythur/lleoedd/eglwysi/?id=4933> <darllenwyd 19/02/18>

## Pennod 5 – Barddoniaeth

Bwriad yr adran hon yw bwrw golwg ar rai o'r cerddi o gyfnod yr Oesoedd Canol sy'n cyfeirio at Elen Luyddog neu Santes Helen, gan gofio nad oes sicrwydd at ba Elen y cyfeiria'r beirdd weithiau. Nid oes syndod bod y rhan fwyaf o'r cerddi yn cyfeirio at y cysylltiad rhwng Elen a'r Wir Groes, gan fod y traddodiad amdani fel mam Custennin Fawr a'r sawl a ganfu'r Wir Groes wedi'i hen ymgorffori â chymeriad Elen Luyddog, merch Eudaf ap Caradog, yn y cyfnod dan sylw.<sup>144</sup> Mae'r cyfeiriadau at Elen yn y cerddi hefyd yn amlygu arwyddocâd y groes fel symbol cryf o ddioddefaint Iesu ac o Gristnogaeth ei hun, a daw pwysigrwydd defosiynol y groes i bobl yn yr Oesoedd Canol yn gwbl amlwg wrth ystyried y farddoniaeth yn ymwneud ag Elen.

'Beirdd yr Uchelwyr' yw'r teitl a roddir ar feirdd y cyfnod hwn gan amlaf, sef yn fras, y cyfnod sy'n cwmpasu cwmp Llywelyn ap Gruffydd yn 1282 pan ddaeth nawdd y Tywysogion i ben, hyd at yr unfed ganrif ar bymtheg.<sup>145</sup> Canu mawl oedd prif bwnc y beirdd hyn, a'u nod oedd diddanu'r uchelwyr a oedd bellach yn gyfrifol am eu noddi. Serch hynny, roedd canu crefyddol yn bwysig i Feirdd yr Uchelwyr hefyd, ac roedd seiliau athronyddol eu barddoniaeth yn Gristnogol yn ei hanfod.<sup>146</sup> Yn wir, roedd rhai o Feirdd yr Uchelwyr yn arbenigo mewn cyfansoddi cerddi crefyddol, gan gynnwys unigolion fel Siôn Cent, Gruffudd ap Maredudd, Iolo Goch a Lewys Glyn Cothi. Ond fel y gwelir maes o law, ceir cyfeiriadau at Elen mewn barddoniaeth nad oedd yn grefyddol yn ei hanfod, yn ogystal â chanu crefyddol. Roedd natur y canu crefyddol wedi dechrau newid erbyn y bymthegfed ganrif wrth i gerddi mwy amhersonol ddisodli mawl i Dduw a chyffes bersonol: 'Bucheddau'r saint oedd y pwnc mwyaf cyffredin, a chafwyd hefyd gerddi i grogau a ffynhonnau sanctaidd a oedd yn amlwg yn ymgais i chwyddo coffrau

---

<sup>144</sup> J. Cartwright, *Y Forwyn Fair, Santesau a Lleianod – Agweddau ar Wryfyddod a Diweirdeb yng Nghymru'r Oesoedd Canol*, tt. 87-88.

<sup>145</sup> *Cydymaith i Lenyddiaeth Cymru* gol. M. Stephens, (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1986), t. 38.

<sup>146</sup> G. Thomas, *Y Traddodiad Barddol* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1976), tt. 183-184.

sefydliadau crefyddol'.<sup>147</sup> Yn wir, mae'r gerdd gyntaf a drafodir yn yr adran hon yn gerdd o fawl i grog enwog iawn yn yr Oesoedd Canol, sef Crog Caer.

Gwrthrych cerdd Gruffudd ap Maredudd ap Dafydd yw delwedd o'r Iesu wedi'i groeshoelio yn eglwys Sant Ioan y Bedyddiwr yng Nghaer, a oedd yn gyrchfan hynod boblogaidd i bererinion yn yr Oesoedd Canol. Bardd o Ynys Môn a fu'n byw rhwng tua 1352 a 1382 oedd Gruffudd ap Maredudd, ac mae ei holl waith wedi goroesi mewn un llawysgrif, sef Llyfr Coch Hergest. Bu'n canu mawl teulu Penmynydd, Ynys Môn, a oedd yn ddisgynyddion i Ednyfed Fychan, dyn a wasanaethai Llywelyn Fawr.<sup>148</sup> Canu duwiol, canu mawl a chanu serch yw tri phrif destun ei farddoniaeth, ac yn wahanol i lawer o feirdd eraill y cyfnod, nid oedd yn defnyddio mesur newydd y cywydd.<sup>149</sup> Arwydd o bwysigrwydd Crog Caer yw'r ffaith fod llawer o feirdd eraill wedi dilyn ôl troed Gruffudd ap Maredudd a chanu iddi, gan gynnwys Guto'r Glyn, Ieuan Llawdden a Maredudd ap Rhys. Ar un adeg, credid bod cerdd enwog Dafydd ap Gwilym, 'I'r Grog o Gaer' yn seiliedig ar y grog hon, ond mae golygiad mwy diweddar o'r gerdd gan Dafydd Johnston wedi dangos mai Crog Caerfyrddin yw gwrthrych y gerdd, gan fod y bardd yn cyfeirio at enw llawn Caerfyrddin ddwywaith, ac at afon Tywi.<sup>150</sup> Mae'r ffaith fod cynifer o feirdd wedi cyfansoddi cerddi mawl i grogau yn adlewyrchu pwysigrwydd y groes i bobl yn yr Oesoedd Canol, ac nid oes syndod bod y Cymry yn awyddus i'w cysylltu eu hunain ag Elen, mam Custennin Fawr a'r sawl yr honnir iddi ddarganfod y Wir Groes, o ystyried y sefyllfa a oedd yn bodoli ar y pryd: 'Crosses were everywhere: in every church, at market places and at parish boundaries, depicted in devotional books, worn as crucifixes, made as sign with the fingers'.<sup>151</sup> Rhaid cofio'r ffaith hon wrth ystyried arwyddocâd y traddodiadau am Elen yng Ngwledydd Cred yn yr Oesoedd Canol.

---

<sup>147</sup> D. Johnston, *Llên yr Uchelwyr – Hanes Beirniadol Llenyddiaeth Gymraeg 1300-1525*, t. 196.

<sup>148</sup> T. Parry, *Hanes Ein Llên* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1948), t. 17.

<sup>149</sup> W. J. Davies, 'Gruffudd ap Maredudd ap Dafydd, (fl. 1352-82), bardd o Fôn', *Y Bywgraffiadur Cymreig* [ar-lein]. Ar gael ar: <http://yba.llgc.org.uk/cy/c-GRUF-APM-1352.html> <darllenwyd 4/03/18>

<sup>150</sup> D. Johnston, golygydd y gerdd 'I'r Grog o Gaer', prosiect Dafydd ap Gwilym.net [ar-lein]. Ar gael ar: <http://www.dafyddapgwilym.net/cym/3win.htm> <darllenwyd 5/02/18>

<sup>151</sup> B. J. Lewis, *Welsh Poetry and English Pilgrimage: Gruffudd ap Maredudd and the Rood of Chester* (Aberystwyth: Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru, 2005), t. 2.



Mae cerdd Gruffudd ap Maredudd yn cysylltu Crog Caer â'r gred yn yr Oesoedd Canol bod pren y Wir Groes wedi tyfu o fedd Adda yn Hebron, ac mae'n honni bod y grog yng Nghaer yn dod o'r Wir Groes a gafodd ei darganfod gan Santes Helena yng Nghaersalem:

Arwyrain Croes Crist a oreuraf  
Ar oror côr Caer glaer egluraf;  
Elen a'i cafas, alaf – ysbrydawl,  
Trydydd dydd deddfawl (awr hawl) o'r haf.<sup>152</sup>

Yma mae'r bardd yn datgan bod Crog Caer yn dod o bren 'Croes Crist' a ganfuwyd gan Santes Helena, ac mae'r gerdd yn codi bri a statws y crair yn syth trwy wneud y cysylltiad hwn. Mae'n debyg bod y 'trydydd dydd' yn cyfeirio at wledd litwrgaidd ar 3 Mai a oedd yn dathlu hanes Santes Helena yn darganfod y Wir Groes. Heb os, os credid yn yr Oesoedd Canol bod Crog Caer yn cynnwys crair o'r Wir Groes, byddai Eglwys Sant Ioan wedi dod yn gyrchfan hyd yn oed yn fwy poblogaidd i bererinion. Yn wir, mae'r bardd yn cyfeirio at y Wir Groes sawl gwaith yn y gerdd, gan sôn am y traddodiad bod Elen wedi dod â hi dros y môr ac ar hyd Afon Dyfrdwy i Gaer.<sup>153</sup>

Mae'r disgrifiad o'r pren yn cyrraedd Caer ar hyd Afon Dyfrdwy yn cael ei nodi dim llai na phum gwaith yn y gerdd, a rhaid dweud bod y ddelwedd hon yn un hynod drawiadol a phwerus. Yn wir, mae'r gerdd yn cloi gyda disgrifiad o'r ddelwedd hon: 'Llethr Dyfrdwy, modrwy mawrdaer/Llithrodd môr llathgrair côr Caer'.<sup>154</sup> Roedd delweddaeth yn ymwneud â'r môr yn hynod boblogaidd ymysg beirdd yr Oesoedd Canol, ac mae'r awgrym bod y grog, sy'n cynnwys crair o'r Wir Groes, wedi'i chludo dros y môr ac ar hyd Afon Dyfrdwy hyd at lannau Caer yn gwbl ganolig i gerdd Gruffudd ap Maredudd.

---

<sup>152</sup> *ibid.*, t. 31.

<sup>153</sup> D. Johnston, *Llên yr Uchelwyr – Hanes Beirniadol Llenyddiaeth Gymraeg 1300-1525*, t. 75.

<sup>154</sup> B. J. Lewis, *Welsh Poetry and English Pilgrimage: Gruffudd ap Maredudd and the Rood of Chester*, t. 34.



Ffigur 2: Yr Afon Dyfrdwy yn llifo i Gaer.<sup>155</sup> Mae'r ddelwedd o Grog Caer yn arnofio ar hyd Afon Dyfrdwy i Gaer yng ngherdd Gruffudd ap Maredudd yn hynod drawiadol.

Mae cysylltiad Elen â Chrog Caer hefyd yn cael ei nodi'n gwbl blaen gan y bardd, sy'n datgan mor gynnar â'r nawfed linell bod y grog yn rhodd gan Elen ('Coelfain Elen'). Yn ddiweddarach, mae'n nodi bod y grog ei hun yn 'llawn aur a main', cyn dathlu gweithred Elen unwaith eto yn y llinell nesaf: 'Doethineb Elen a'm gwnaeth gorawen'.<sup>156</sup> Mae'r gerdd hon yn dangos bod y traddodiad am Elen yn darganfod y Wir Groes yn fyw iawn yng Nghymru erbyn cyfnod Gruffudd ap Maredudd tua diwedd y bedwaredd ganrif ar ddeg, a bod y bardd hwn yn awyddus i gysylltu Elen â Chrog Caer.



Ffigur 3: Olion canoloesol Eglwys Sant Ioan.<sup>157</sup> Roedd yr eglwys hon, cartref Crog Caer, yn gyrchfan poblogaidd iawn i bererinion yn yr Oesoedd Canol.

---

<sup>155</sup> Ffotograff gan Steven Jones, awdur y traethawd hwn.

<sup>156</sup> B. J. Lewis, *Welsh Poetry and English Pilgrimage: Gruffudd ap Maredudd and the Rood of Chester*, t. 33.

<sup>157</sup> Ffotograff gan Steven Jones, awdur y traethawd hwn.



Ffigur 4: Eglwys Sant Ioan heddiw.<sup>158</sup>

Bardd arall sy'n cyfeirio at Elen mwy nag unwaith yn ei gerddi yw Guto'r Glyn. Er bod rhywfaint o ansicrwydd ynglŷn â manylion bywyd cynnar Guto, credir iddo gael ei eni tua 1412, ac ar sail ei enw a lleoliadau daearyddol ei waith, mae'n bosibl ei fod yn dod o Lyn Dyfrdwy neu Lyn Ceiriog.<sup>159</sup> Er bod Guto'r Glyn wedi cyfansoddi nifer o gerddi yn dychanu ac yn cellwair, a sawl cerdd yn disgrifio llysoedd Cymru a mynachlogydd, mae'n debyg ei fod yn cael ei gofio'n bennaf am ei gywyddau mawl a'i farwnadau.<sup>160</sup> Yn un o'r cerddi hyn, 'Cysuro Ann Herbert, iarlles Penfro, ar ôl marwolaeth ei gŵr', a gyfansoddwyd rhwng tua 1471 a 1475, mae Guto'r Glyn yn cyfeirio at Elen, mam Custennin Fawr. Mae'r gerdd hon yn enghraifft brin o Guto yn canu i fenyw, ond mae'n ddiddorol nodi ei fod yn rhoi llawer o sylw i wŷr a mab Ann hefyd, a bod Ann yn cael ei diffinio ar sail ei pherthynas â'i mab a'i gŵr.<sup>161</sup> Mae'r bardd yn defnyddio cymhariaeth feiblaidd i glodfori Ann yn un rhan o'r gerdd, gan ei chyfosod â Mair a Martha, chwirydd Lasarus: 'Martha irder merthyrdawd/Mair brudd wedi marw ei brawd'.<sup>162</sup> Yn rhan olaf y gerdd, mae Guto'r Glyn yn cymharu Ann Herbert ag Elen, mam Custennin Fawr, ac mae'n gwneud hynny mewn ffordd estynedig sy'n mynd ati i glodfori Ann ei hun, ei mab Wiliam, Santes Anna, mam y Forwyn Fair, Santes Elen, a'i mab hithau, Custennin:

---

<sup>158</sup> Ffotograff gan Steven Jones, awdur y traethawd hwn.

<sup>159</sup> E.A. Rees, *A Life of Guto'r Glyn* (Y Lolfa: Talybont, 2008), t. 19.

<sup>160</sup> I. Williams, 'Guto'r Glyn, bardd a ganai yn ail hanner y 15<sup>fed</sup> g. (1440-1493)', *Y Bywgraffiadur Cymreig*, Blwyddyn Cyhoeddi 1953-54 [ar-lein]. Ar gael ar: <http://yba.llgc.org.uk/cy/c-GUTO-GLY-1440.html> <darllenwyd 29/11/17>

<sup>161</sup> B.J. Lewis, golygydd y gerdd 'Cysuro Ann Herbert, iarlles Penfro, ar ôl marwolaeth ei gŵr', prosiect Guto'r Glyn. net [ar-lein]. Ar gael ar: <http://www.gutorglyn.net/gutorglyn/poem/?poem-selection=026> <darllenwyd 7/02/18>

<sup>162</sup> *ibid.*

*Saint Ann* y'th alwan' i'th iaith,  
*Saint Elen* dros Went eilwaith.  
Elen oedd fam Gwstennin,  
A'i mab, traws a fu 'mhob trin.  
Mae Iarll William ieirll aelwyd  
Ac Elen wych Raglan wŷd;  
Constans, i Rwmans a roed,  
Yw'r iarll hwn i'r ieirll unoed.  
Chwaer Elen fych yr eiloes,  
Ac ail gwraig i gael y groes;  
Ymherodr yma hirwyn,  
Fal ei mab, fo Wiliam ynn.<sup>163</sup>

Nodir yn y darn hwn mai mam Custennin oedd Elen, ac mae'r bardd yn nodi ei ddymuniad i Ann fod yn chwaer i Elen ac yn ail wraig i ennill y groes. Felly, dyma enghraifft arall o gerdd yn cyfeirio at y traddodiad bod Elen wedi darganfod y Wir Groes, sy'n awgrym cryf bod ei henw bron yn gyfystyr â symbol y groes yn yr Oesoedd Canol. Ond mae'n ddiddorol nodi hefyd bod Guto'r Glyn yn cyfeirio at Gustennin, mab Elen, gan ganmol ei ddewrder ym mhob brwydr, a'i fod yn canolbwyntio ar Wiliam, mab Ann Herbert, yn llinellau olaf y gerdd. I ryw raddau, mae hyn yn adlewyrchu tuedd y beirdd i glodfori dynion yn bennaf, ac o safbwynt Santes Elen, mae'n dilyn y duedd i'w diffinio yng nghyd-destun ei pherthynas â'i mab yn hytrach nag yn ei rhinwedd ei hun.

Cywydd arall gan Guto'r Glyn sy'n cyfeirio at Elen yw 'Gofyn ffaling gan Elen ferch Robert Pilstwn o'r Llannerch', a gyfansoddwyd tua chanol y bymthegfed ganrif. Math o fantell drwchus o lwerddon oedd 'ffaling', ac mae'n debyg bod noddwyr yn ei rhoi'n anrheg i'r beirdd yn aml.<sup>164</sup> Mae tair rhan i'r cywydd hwn, ac yn yr ail ran mae Guto yn cymharu Elen ferch Robert Pilstwn â thair menyw enwog o'r gorffennol sydd â'r un enw:

Gynt yr oeddynt oreuddawn  
Dair Elen wych dreuliwn iawn.  
Elen hael y galwen' hon,  
Merch Goel â'r llw meirch gwelwon;  
A'r ail oedd â'r ael liwddu,  
Elen, gwraig i Facsen fu;

---

<sup>163</sup> *ibid.*

<sup>164</sup> Erthygl ar 'Mentyll', prosiect Guto'r Glyn. net [ar-lein]. Ar gael ar:  
<http://www.gutorglyn.net/gutoswales/gwisgoedd-dillad-mentyll.php> <darllenwyd 20/02/18>

Ac Elen ddoeth, galon dda,  
Fannog, fodrwyog, Droea.<sup>165</sup>

Mae'n hynod ddiddorol nodi yma bod Guto'r Glyn yn cyfeirio at Elen, merch y brenin Coel, ac Elen, gwraig Maxen Wledig, fel dau unigolyn ar wahân. Hefyd, mae'r cyfeiriad at Elen fel gwraig Maxen Wledig yn dangos bod y bardd yn gyfarwydd â chwedl *Breuddwyd Maxen* erbyn y cyfnod hwn, sef tua chanol y bymthegfed ganrif. Mae'r tair Elen yn y gerdd hon yn cynrychioli rhinweddau disgwylidig gwraig uchelwr, sef haelioni, harddwch a doethineb, ac mae Elen o'r Llannerch yn meddu ar bob un ohonynt.<sup>166</sup> Mae'n werth nodi hefyd fod y gerdd hon yn gwahaniaethu'n glir rhwng Santes Elen, Elen Luyddog ac Elen Fannog o Droea - yn wahanol iawn i lawer o gerddi eraill yn y cyfnod hwn lle mae'n anodd gwybod at ba Elen y cyfeiria'r bardd.

Bardd arall sy'n cyfeirio at Elen yn un o'i gerddi yw Robin Ddu o Fôn, a gyfansoddodd tua 90 o gywyddau yn ystod ail hanner y bymthegfed ganrif - llawer ohonynt yn gerddi brud.<sup>167</sup> Un o gerddi enwocaf Robin Ddu yw 'Cywydd y Llong' lle mae'n disgrifio ei bererindod i Rufain yn y flwyddyn 1450. Yn y gerdd hon, mae'r bardd yn disgrifio ei ymweliad â Rhufain, gan nodi'r seremonïau y cymerodd y pererinion ran ynddynt: 'Cael cyffes, cynnes y caid/A tharo drwy'r Porth Euraid'.<sup>168</sup> Ar ôl cael cymorth, maddeuant a bendith y Pab Nicolas, mae'r bardd yn dychwelyd adref i Gymru, a dyma le mae'n cyfeirio at Elen: 'Cyfeirio o'r fro ar frys/Cael pen ffordd Elen ddilys/A dyfod, er cydfod cur/Ar wrthol i lwybr Arthur'.<sup>169</sup> Mae'n ymddangos bod Robin Ddu yn nodi iddo deithio ar hyd yr un ffordd ag Elen Luyddog ar ei thaith o Brydain i Rufain yn chwedl *Breuddwyd Maxen*, ac mae'r cyfeiriad at 'ffordd Elen' fel pe bai'n cysylltu Elen ymhellach â'r syniad o deithio a ffyrdd. Mae ugain copi o'r gerdd hon wedi goroesi mewn llawysgrifau

---

<sup>165</sup> A. M. Edwards, golygydd y gerdd 'Gofyn ffaling gan Elen ferch Robert Pilstwn o'r Llanerch'.

<sup>166</sup> *ibid.*

<sup>167</sup> D.J. Bowen, 'Robin Ddu (fl. C. 1450), cywyddwr', *Y Bywgraffiadur Cymreig*, Blwyddyn Cyhoeddi 1953-54 [ar-lein]. Ar gael ar: <http://yba.llgc.org.uk/cy/c-ROBI-DDU-1450.html?query=Robin+Ddu&field=name> <darllenwyd 05/03/18>

<sup>168</sup> T. Roberts, 'Cywyddau Pererindod', *Y Traethodydd*, Cyf. XCIX (XIII) (430-433), (1944): 29-39 (t. 30), Llyfrgell Genedlaethol Cymru [ar-lein]. Ar gael ar <https://journals.library.wales/view/1134021/1148940/33#?xywh=-32%2C988%2C3085%2C2719> <darllenwyd 20/12/17>

<sup>169</sup> *ibid.*, t. 32.

gwahanol, ac mae modd nodi union ddyddiad pererindod y bardd i Rufain, sef 1450, gan ei fod yn cyfeirio ato ei hun yn llinellau 25 a 26.<sup>170</sup>

Hyd yma, mae'r cyfeiriadau at Elen a drafodwyd wedi dod o farddoniaeth ganoloesol gan ddynion, ond mae'n braf nodi bod Elen yn cael ei chrybwyll mewn cerdd gan Gwerful Mechain, sef y 'bardd benywaidd cynharaf yn y Gymraeg y mae *corpus* sicr a sylweddol o'i gwaith gennym ar glawr'.<sup>171</sup> Bardd o ardal Powys a ganai yn ail hanner y bymthegfed ganrif oedd Gwerful, ac er bod dros ddeugain o gerddi wedi'u priodoli iddi, a nifer sylweddol o gopïau o lawer ohonynt wedi'u cadw, mae ei chyfraniad wedi'i anwybyddu yng Nghymru i raddau helaeth. Gellid dadlau ei bod wedi cael cam yn y cyswllt hwn gan fod Gwerful yn fardd o'r radd flaenaf a lwyddodd i gyfansoddi llawer o gerddi sensitif a hynod gelfydd.

Un o'i cherddi enwocaf yw'r 'Cywydd i Ateb Ieuan Dyfi am Gywydd Anni Goch', sy'n rhestru nifer o fenywod rhinweddol mewn ymateb uniongyrchol i gywydd Ieuan Dyfi yn beirniadu ei gariad, Anni Goch, a menywod yn gyffredinol.<sup>172</sup> Mae Gwerful yn enwi 13 o fenywod yn ei cherdd, ac mae'n mynd ati i'w dewis a'u dethol yn ofalus er mwyn ateb cyhuddiadau Ieuan Dyfi. Yn eu plith y mae menywod cryf fel Marsia a Tonwen, a chymeriadau â chysylltiadau beiblaidd fel mam Jiwidas a gwraig Pilat. Mae Gwerful yn cyfeirio'n uniongyrchol at Elen yn y darn hwn:

Elen merch Goel a elwynt  
Gwraig Gonstans a gafas gynt  
Y Groes lle y lladdwyd Iesu,  
A'r gras, ac nis llas mo'i llu.<sup>173</sup>

Ymddengys fod Elen Luyddog a Santes Helena wedi'u cyfuno yn y cyfeiriad hwn at Elen,<sup>174</sup> ond nid yw hynny'n annisgwyl o gofio bod Elen/Helena yn santes gyfansawdd i

---

<sup>170</sup> H. H. Williams, 'Cerddi mawl Robin Ddu o Fôn' (Traethawd PhD heb ei gyhoeddi, Prifysgol Bangor, 2012), t. 22 [ar-lein]. Ar gael ar: <http://e.bangor.ac.uk/5119/1/PhD%20Heledd%20Haf%20Williams.pdf> <darllenwyd 19/11/17>

<sup>171</sup> C. Lloyd-Morgan, 'Gwerful, Ferch Ragorol Fain: Golwg Newydd ar Gwerful Mechain', *Ysgrifau Beirniadol XVI*, gol. J.E.C. Williams (Dinbych: Gwasg Gee, 1990): tt. 84-97 (t. 85).

<sup>172</sup> J. Cartwright, *Feminine Sanctity and Spirituality in Medieval Wales*, tt. 84-85.

<sup>173</sup> M. Haycock, 'Merched Drwg a Merched Da: Ieuan Dyfi v. Gwerful Mechain', *Ysgrifau Beirniadol XVI*, gol. J.E.C. Williams (Dinbych: Gwasg Gee, 1990): tt. 97-110 (t. 104).

raddau helaeth ym meddwl y Cymry erbyn y cyfnod hwn. Unwaith eto, mae'n ddiddorol nodi bod Gwerful yn sôn am Elen yn canfod y 'Groes lle y lladdwyd Iesu', sy'n dystiolaeth bellach bod y syniad hwn wedi'i wreiddio'n gadarn yn y meddwl poblogaidd tua diwedd yr Oesoedd Canol. Hefyd, o gofio bod Gwerful Mechain wedi dewis menywod ar gyfer y gerdd hon yn ofalus iawn, mae'r ffaith fod Elen yn un o'r 13 dethol yn awgrym cryf o'i phroffil uchel ar y pryd. Mae'r ffaith fod y gerdd hon wedi goroesi mewn 34 o lawysgrifau<sup>175</sup> yn brawf o'i phoblogrwydd, gan awgrymu y byddai llawer o bobl wedi clywed am Elen a'r hanes amdani'n darganfod y Wir Groes drwy gyfrwng y gerdd hon.

Ceir cyfeiriad at Elen hefyd mewn englyn a gofnodwyd yn *Llawysgrif Gwynedd* 3, sy'n perthyn i gasgliad *Llawysgrifau Gwynedd* a gedwir gan Brifysgol Bangor. Ar un adeg, credid mai Gwerful Mechain oedd bardd yr englyn hwn o bosibl, ond mae gwaith academiaidd mwy diweddar wedi dangos bod hyn yn annhebygol. Nid yw Cathryn Charnell-White yn cynnwys yr englyn hwn yn ei blodeugerdd o ganu menywod hyd at 1800,<sup>176</sup> ac nid yw Nerys Ann Howells wedi cynnwys yr englyn yn ei golygiad o waith Gwerful Mechain gan ei bod yn annhebygol mai hi a'i cyfansoddodd.<sup>177</sup> Serch hynny, mae'r englyn yn ddiddorol iawn:

Diboen merch Coel Godeboc  
i Gred y peraiſt y Groc  
Vgain, trychant a'i wrantu  
oedd oed Iesu Dyw dywysoc.<sup>178</sup>

Yma mae'r bardd yn cyfeirio at Elen fel merch i'r brenin Coel, ac at y chwedl amdani'n darganfod y Wir Groes. Mae'n bosibl bod y flwyddyn 'Vgain, trychant' yn cyfeirio at y dyddiad pan ddarganfu Santes Helena y Wir Groes, gan mai dyna'r cyfnod cyffredinol y credid iddi fynd ar bererindod i Gaersalem i chwilio amdani.

---

<sup>174</sup> *ibid.*, t. 107.

<sup>175</sup> *ibid.*, t. 98.

<sup>176</sup> Charnell-White, C., gol., *Beirdd Ceridwen: Blodeugerdd Barddas o Ganu Menywod hyd tua 1800* (Llandybïe: Cyhoeddiadau Barddas, 2005).

<sup>177</sup> N.A. Howells, gol., *Gwaith Gwerful Mechain ac Eraill* (Aberystwyth: Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru, 2001), (t. 28).

<sup>178</sup> I. Williams, gol., *Gwynedd* 3 (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1931), t. 131.

Ceir cyfeiriad byr at Elen mewn cerddi gan Feirdd yr Uchelwyr eraill hefyd, gan gynnwys un o gerddi Casnodyn. Bardd a ganai yn hanner cyntaf y bedwaredd ganrif ar ddeg yw Casnodyn, ac er mai prin iawn yw'r wybodaeth fywgraffyddol sydd ar gael amdano, credir iddo hanu o Gilfái ger Abertawe. Mae deuddeg o gerddi Casnodyn wedi goroesi, ond fel sy'n wir am gynifer o feirdd eraill y cyfnod, mae'n anodd gwybod er sicrwydd pa awdlau y dylid eu priodoli iddo.<sup>179</sup> Dyma'r cyfeiriad at Elen yng ngherdd Casnodyn: 'Am gystal eirf arial Urien, Am gost Gustennin fab Elen'.<sup>180</sup> Gwelir yma fod y bardd yn cysylltu enwau Custennin ac Urien, un o frenhinoedd yr Hen Ogledd y bu'r bardd Taliesin yn ei ganmol am ei ddewrder ar faes y gad. Bardd arall sy'n crybwyll Elen mewn cerdd yw Ieuan ap Llywelyn Fychan. Bardd ac uchelwr a hanai o Ddyffryn Clwyd oedd Ieuan ap Llywelyn Fychan, ac yn ei gerdd 'Marwnad Sioned ferch Robert ab Ieuan Fychan', mae'n cyfeirio at Elen Luyddog trwy ddatgan: 'Pe byw Sabel ac Elen'.<sup>181</sup> Un o Feirdd yr Uchelwyr mwyaf nodedig oedd Dafydd Nanmor o ardal Beddgelert, ac mae llawer o'i gerddi mawl i Edmunt a Siasbar Tudur wedi goroesi. Yn ogystal, cyfansoddodd Dafydd Nanmor gywydd mawl â'r teitl 'Dadolwch Rhys o'r Tywyn', sy'n cynnwys y llinellau canlynol: 'Elen a ddoeth yr eiloes/Drwy For Groeg adref â'r groes'.<sup>182</sup> Dyma gyfeiriad hyfryd at Elen yn dod â'r groes adref dros fôr Groeg, sy'n enghraifft arall o bwysigrwydd symbolaeth y môr i'r beirdd ac yn adlais o awdl wych Gruffydd ap Maredudd i Grog Caer.

Mae'r bennod hon wedi ceisio dangos bod y traddodiad am Elen yn darganfod y Wir Groes wedi ysbrydoli awen nifer o Feirdd yr Uchelwyr. Mae cerdd hir Gruffudd ap Maredudd yn benodol yn rhoi sylw helaeth i Elen a'r Wir Groes, ond mae'r holl gyfeiriadau eraill ati ym marddoniaeth y cyfnod yn dangos bod y beirdd yn ymwybodol iawn ohoni. Dyma faes sydd angen ei astudio'n fanylach yn ddiau.

---

<sup>179</sup> D.M. Lloyd, 'Casnodyn (fl. 1320-1340), bardd', Y Bywgraffiadur Cymreig, Blwyddyn Cyhoeddi 1953-54 [ar-lein]. Ar gael ar: <http://yba.llgc.org.uk/cy/c-CASN-ODY-1290.html?query=casnodyn&field=name> <darllenwyd 11/03/18>

<sup>180</sup> R. Iestyn Daniel, gol., *Gwaith Casnodyn* (Aberystwyth: Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru, 1999), (t. 26).

<sup>181</sup> M.P. Bryant-Quinn, gol., *Gwaith Ieuan ap Llywelyn Fychan, Ieuan Llwyd Brydydd a Lewys Aled* (Aberystwyth: Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru, 2003), (t. 39).

<sup>182</sup> T.G. Jones, 'Ystoria Addaf a Val y Cauas Elen y Grog: tarddiad, cynnwys ac arddull y testunau Cymraeg a'u lledaeniad', t. lxxiv.



## Pennod 6 - Casgliadau Cyffredinol

Mae'r dystiolaeth sydd wedi'i thrafod yn y traethawd hwn yn awgrymu bod Elen/Helen yn ffigur arwyddocaol yng Nghymru yn yr Oesoedd Canol. Fel y nodwyd, ceir cyfeiriadau at 'Elen Luyddog' mewn achau a llawysgrifau, at ddibenion rhethregol a gwleidyddol yn aml. Ond er bod y gwaith academaidd cynnar yn y maes hwn gan ysgolheigion fel Ifor Williams<sup>183</sup> a John Rhys wedi dadlau bod y cymeriad 'Elen Luyddog' yn rhyw fath o dduwies Geltaidd/chwedlonol ar wahân, mae'n anodd canfod unrhyw dystiolaeth i ategu hynny. Yn wir, mae'r ffaith fod yr ansoddair 'Luyddog' yn dilyn yr enw 'Elen' mewn rhestr achau sydd hefyd yn cynnwys enw Custennin Fawr yn awgrymu bod Elen Luyddog o'r traddodiad Cymraeg wedi'i chysylltu â'r Santes Helena Rufeinig yn gymharol gynnar: 'Linked epithetically to the name Elen it occurs earliest in the tenth-century Harleian 3859 pedigree of Dyfed, and here it refers to Helena the mother of Constantine the Great'.<sup>184</sup> Mae'r ffaith hon, ynghyd â'r cyfeiriadau niferus mewn barddoniaeth at Elen fel mam Custennin Fawr a gwraig Maxen, yn cefnogi dadl John Matthews mai un 'Helen' sydd gennym mewn gwirionedd, wedi'i throsglwyddo o un cyd-destun i gyd-destun arall.<sup>185</sup>

Mae'r traethawd hwn wedi ceisio dangos bod Elen wedi'i defnyddio at ddibenion gwleidyddol penodol gan lunwyr achau. Fel y nodwyd, roedd y Cymry yn awyddus iawn i'w cysylltu eu hunain â'r Ymerodraeth Rufeinig, ac roedd hawlio cysylltiad â'r santes a oedd yn fam i Gustennin Fawr ac a ganfu'r Wir Groes yn ffordd ragorol o wneud hynny. Fel y nodwyd, ceir awgrym cryf bod awdur *Breuddwyd Maxen* wedi llunio ei stori â bwriad penodol mewn golwg hefyd, sef uno dau hynafiad breninliniau Cymreig enwog a fu'n annibynnol ar ei gilydd cyn hynny.<sup>186</sup> Diau y byddai'r chwedl hon, â'i chysylltiadau Rhufeinig, wedi chwyddo balchder y Cymry, a gellid dadlau i raddau helaeth mai balchder cenedlaethol sydd wrth wraidd *Breuddwyd Maxen* a'r cyfeiriadau at Elen yn yr achau. Byddai'r chwedl am Elen wedi helpu i greu delwedd ffafriol o'r genedl ar sail

---

<sup>183</sup> I. Williams, gol., *Breuddwyd Maxen*, t. xiv.

<sup>184</sup> G.F. Brewer a B.L. Jones, 'Popular Tale Motifs and Historical Tradition in Breuddwyd Maxen', t. 27.

<sup>185</sup> J. Matthews, 'Macsen, Maximus and Constantine', t. 439.

<sup>186</sup> R. Bromwich, 'The Character of the Early Welsh Tradition', t. 109.

cysylltiad honedig â Rhufain ymerodrol, a rhaid cofio: 'there is rhetorical value in claiming a famous personage as a compatriot'.<sup>187</sup> O ystyried ei phwysigrwydd cyffredinol, nid oes syndod bod llawer o gyfeiriadau at Elen/Helen ym marddoniaeth Gymraeg yr Oesoedd Canol a bod y cyfieithiad Cymraeg o hanes Santes Helena yn darganfod y Wir Groes wedi'i chopio mewn cynifer o lawysgrifau. Serch hynny, fel llawer iawn o seintiau a santesau eraill, ymddengys na wnaeth cwlt Elen/Helen oroesi'r Diwygiad Protestannaidd: 'Pan gollwyd yr hen grefydd, ni roed yr un derbyniad i'r ystraeon wedyn'.<sup>188</sup> Mae'n bosibl bod llawer o waith celf yn ymwneud ag Elen/Helen, a'r traddodiad amdani'n darganfod y Wir Groes, wedi'i golli yn sgil hynny.

Fel mae'r traethawd hwn wedi ceisio ei ddangos, mae'n anodd gorbwysleisio pwysigrwydd defosiynol y groes yng Nghymru yn yr Oesoedd Canol, ac arwyddocâd y ffydd Gristnogol i fywydau pobl gyffredin.<sup>189</sup> Byddai pobl yn penlinio gerbron delw o'r groes ar grogloffft wrth addoli mewn eglwysi, ac roedd y symbol yn gwbl ganolig i'r ffydd Gristnogol. O ystyried cysylltiad Helen â'r groes, nid oes syndod bod cymaint o barch ati yng Ngwledydd Cred.

Wrth edrych yn ôl heddiw, mae'n gallu bod yn anodd i ni amgyffred pwysigrwydd a dylanwad seintiau a santesau yn yr Oesoedd Canol. Dengys gwaith ymchwil 'Cwlt y Seintiau yng Nghymru'<sup>190</sup> bwysigrwydd eu bucheddau Cymraeg, a'u dylanwad mawr ar bobl gyffredin yng Nghymru. Mae'r dystiolaeth a drafodwyd yn y traethawd hwn yn awgrymu bod Elen/Helen yn perthyn i'r un traddodiad a'i bod yn ffigur o bwys yng Nghymru yn yr Oesoedd Canol.

---

<sup>187</sup> A. Harbus, *Helena of Britain in Medieval Legend*, t. 3.

<sup>188</sup> T.G. Jones, 'Ystorya Addaf a Val y cauas Elen y Grog: tarddiad, cynnwys ac arddull y testunau Cymraeg a'u lledaeniad', t. xxvii.

<sup>189</sup> P. Lord, *The Visual Culture of Wales: Medieval Vision* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2003) t. 10.

<sup>190</sup> Seintiau Cymru [ar-lein]. Ar gael ar: <http://www.seintiaucymru.ac.uk/> <darllenwyd 11/12/17>

## Llyfryddiaeth

### **Ffynonellau cynradd:**

Bartrum, P.C., 'Arthuriana from the Genealogical Manuscripts,' *Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru*, Cyfrol XIV, Rhif 2, (1965): 242-245, Llyfrgell Genedlaethol Cymru [ar-lein]. Ar gael ar <https://journals.library.wales/view/1277425/1282625/0> <darllenwyd 4/01/18>

Bartrum, P.C., *Early Welsh Genealogical Tracts* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1966).

Bartrum, P.C., gol. a chyfieithydd 'Y Pedwar Brenin ar Hugain a Farnwyd yn Gadarnaf', *Etudes Celtiques* 12 (1968-71): 157-194.

Bromwich, R., gol. a chyfieithiad Saesneg, *Trioedd Ynys Prydein – The Triads of the Island of Britain* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2017).

Bryant-Quinn, M.P., gol., *Gwaith Ieuan ap Llywelyn Fychan, Ieuan Llwyd Brydydd a Lewys Aled* (Aberystwyth: Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru, 2003).

Charnell-White, C., gol., *Beirdd Ceridwen: Blodeugerdd Barddas o Ganu Menywod hyd tua 1800* (Llandybïe: Cyhoeddiadau Barddas, 2005).

Daniel, R.I., gol., *Gwaith Casnodyn* (Aberystwyth: Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru, 1999).

Davies, S., *The Mabinogion – A new translation by Sioned Davies* (Rhydychen: Gwasg Prifysgol Rhydychen, 2007).

Edwards, A.M., golygydd y gerdd 'Gofyn ffaling gan Elen ferch Robert Pilstwn o'r Llanerch', prosiect Guto'r Glyn. net [ar-lein]. Ar gael ar: <http://www.gutorglyn.net/gutorglyn/poem/?poem-selection=053> <darllenwyd 3/02/18>

Haycock, M., 'Merched Drwg a Merched Da: Ieuan Dyfi v. Gwerful Mechain', *Ysgrifau Beirniadol XVI*, gol. J.E.C. Williams (Dinbych: Gwasg Gee, 1990): tt. 97-110.

Howells, N.A., gol., *Gwaith Gwerful Mechain ac Eraill* (Aberystwyth: Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru, 2001).

Hughes, D., *Medieval Welsh Manuscripts* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2002).

- Hughes, G.H., gol., *Rhagymadroddion* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1976).
- Ifans, D. a Rh., *Y Mabinogion – Diweddariad gan Dafydd a Rhiannon Ifans* (Llandysul: Gwasg Gomer, 1995).
- Johnston, D., golygydd y gerdd 'I'r Grog o Gaer', prosiect Dafydd ap Gwilym.net [ar-lein]. Ar gael ar: <http://www.dafyddapgwilym.net/cym/3win.htm> <darllenwyd 5/02/18>
- Jones, G., a Jones, T., *The Mabinogion* (Llundain: Guernsey Press Co. Ltd., 1986).
- Jones, T.G., 'Ystoria Addaf a Val y cauas Elen y Grog: tarddiad, cynnwys ac arddull y testunau Cymraeg a'u lledaeniad' (Traethawd MA heb ei gyhoeddi, Prifysgol Cymru Aberystwyth, 1936).
- Lewis, B.J., *Welsh Poetry and English Pilgrimage: Gruffudd ap Maredudd and the Rood of Chester* (Aberystwyth: Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru, 2005).
- Lewis, B.J., golygydd y gerdd 'Cysuro Ann Herbert, iarlls Penfro, ar ôl marwolaeth ei gŵr', prosiect Guto'r Glyn. net [ar-lein]. Ar gael ar: <http://www.gutorglyn.net/gutorglyn/poem/?poem-selection=026> <darllenwyd 7/02/18>
- Morris, L., *Bonedd y Saint Neu Achau Saint Ynys Prydain*, (1760): tt. 417-431, [ar-lein]. Ar gael ar: [http://www.celticchristianity.infinitesolutions.com/books/Bonedd\\_y\\_Saint\\_Achau\\_LivesCambroSaint.pdf](http://www.celticchristianity.infinitesolutions.com/books/Bonedd_y_Saint_Achau_LivesCambroSaint.pdf) <darllenwyd 1/03/18>
- Parry, J.J., gol. a chyfieithydd, *Brut y Brenhinedd, Cotton Cleopatra Bv version* (Cambridge, Massachusetts: Medieval Academy Books, 1931) [ar-lein]. Ar gael ar: [http://www.medievalacademy.org/resource/resmgr/maa\\_books\\_online/parry\\_0027.htm#hd\\_ma0027\\_head\\_005](http://www.medievalacademy.org/resource/resmgr/maa_books_online/parry_0027.htm#hd_ma0027_head_005) <darllenwyd 9/03/18>
- Roberts, B.F., gol., *Brut y Brenhinedd Llanstephan MS.1 Version* (Dulyn: The Dublin Institute for Advanced Studies, 1971).
- Roberts, B.F., gol., *Breudwyd Maxen Wledic* (Dulyn: Dublin Institute for Advanced Studies, 2005).
- Roberts, T., 'Cywyddau Pererindod', *Y Traethodydd*, Cyf. XCIX (XIII) (430-433), (1944): 29-39, Llyfrgell Genedlaethol Cymru [ar-lein]. Ar gael ar <https://journals.library.wales/view/1134021/1148940/33#?xywh=-32%2C988%2C3085%2C2719> <darllenwyd 20/12/17>
- The National Gazetteer of Great Britain and Ireland (1868), dyfynnwyd ar wefan GENIUKI [ar-lein]. Ar gael ar: <http://www.genuki.org.uk/big/wal/MON/Llanellen> <darllenwyd 14/03/18>

Williams, I., gol., *Breuddwyd Maxen* (Bangor: Jarvis a Foster, 1908).

Williams, I., gol., *Gwyneddion 3* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1931).

### **Ffynonellau eilaidd:**

Bartrum, P.C., 'Late Additions to Bonedd y Saint', *Transactions of the Honourable Society of Cymmrodorion*, Session 1959, (1959): 76-98, Llyfrgell Genedlaethol Cymru [ar-lein]. Ar gael ar <https://journals.library.wales/view/1386666/1415159/83#?xywh=62%2C1881%2C2241%2C1974> <darllenwyd 4/12/17>

Bowen, D.J., 'Robin Ddu (fl. C. 1450), cywyddwr', *Y Bywgraffiadur Cymreig*, Blwyddyn Cyhoeddi 1953-54 [ar-lein]. Ar gael ar: <http://yba.llgc.org.uk/cy/c-ROBI-DDU-1450.html?query=Robin+Ddu&field=name> <darllenwyd 05/03/18>

Brewer, G.F. a Jones, B.L., 'Popular Tale Motifs and Historical Tradition in Breuddwyd Maxen', *Medium AEvum* 44 (1975): 23-30.

Bromwich, R., 'The Character of the Early Welsh Tradition', *Studies in Early British History*, gol. H.M. Chadwick et al. (Caergrawnt: Gwasg Prifysgol Caergrawnt, 1954): tt. 83 –136.

Bryan, E.J., 'Ursula in the British History Tradition', *The Cult of St. Ursula and the 11,000 Virgins*, gol. J. Cartwright (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2016): tt. 103-139.

Cartwright, J., *Y Forwyn Fair, Santesau a Lleianod – Agweddu ar Wryfydod a Diweirdeb yng Nghymru'r Oesoedd Canol* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1999), tt. 76-133.

Cartwright, J., *Feminine Sanctity and Spirituality in Medieval Wales* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2008), tt. 8-66.

Cartwright, J., 'The Middle Welsh Life of St. Ursula and the 11,000 Virgins', *The Cult of St. Ursula and the 11,000 Virgins*, gol. J. Cartwright (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2016), tt. 141–160.

Conegliano, C.D., *St. Helena*, olew ar banel, National Gallery of Art, Washington, delwedd ar Web Gallery of Art [ar-lein]. Ar gael ar: <https://www.wga.hu/index1.html> <darllenwyd 15/03/18>

Coombe Tennent, W., 'Croes Naid', *Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru*, Cyfrol VII, (1951/52): 102-115, Llyfrgell Genedlaethol Cymru [ar-lein]. Ar gael ar <https://journals.library.wales/view/1277425/1279347/17> <darllenwyd 18/01/18>

Crampin, M., Gwydr Lliw yng Nghymru – St Helen [ar-lein]. Ar gael ar: <http://stainedglass.llgc.org.uk/main.php?icongo=GO&ref=11HH%28HELEN%29&unc=showicon> <darllenwyd 20/03/18>

*Cydymaith i Lenyddiaeth Cymru* gol. M. Stephens, (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1986).

Davies, S., 'Pryd a Gwedd yn y Mabinogion', *Ysgrifau Beirniadol XIV*, gol. J.E.C. Williams (Llandysul: Gwasg Gee, 1988): tt. 115-133.

Davies, W.J., 'Gruffudd ap Maredudd ap Dafydd, (fl. 1352-82), bardd o Fôn', *Y Bywgraffiadur Cymreig* [ar-lein]. Ar gael ar: <http://yba.llgc.org.uk/cy/c-GRUF-APM-1352.html> <darllenwyd 4/03/18>

De Combes, L., *The Finding of the Cross* (Llundain: Kegan Paul, Trench, Trübner & Co. Ltd., 1907).

Evans, D.H., *Valle Crucis Abbey* (Caerdydd: Cadw, 1995).

Ellis, M., a Dafydd, M., *Eglwysi Cymru* (Talybont: Y Lolfa, 1985).

Erthygl ar 'Mentyll', prosiect Guto'r Glyn. net [ar-lein]. Ar gael ar: <http://www.gutorglyn.net/gutoswales/gwisgoedd-dillad-mentyll.php> <darllenwyd 20/02/18>

Foster I.Ll., 'Sieffre o Fynwy (1090?-1155)', *Y Bywgraffiadur Cymreig*, Blwyddyn Cyhoeddi 1953-54 [ar-lein]. Ar gael ar: <http://yba.llgc.org.uk/cy/c-SIEF-OFY-1090.html?query=sieffre+o+fynwy&field=name> <darllenwyd 08/03/18>

Evans, S., 'Seintiau Newydd yn Llydaw Hen', *Y Traethodydd*, Cyf. CXVI (XXIX) (498-501), (1961): 33-38, *Llyfrgell Genedlaethol Cymru* [ar-lein]. Ar gael ar [https://journals.library.wales/view/1134021/1152493/38#?cv=38&m=61&h=seintiau u newydd yn llydaw hen&c=0&s=0&xywh=-813%2C-1%2C4509%2C3974](https://journals.library.wales/view/1134021/1152493/38#?cv=38&m=61&h=seintiau%20newydd%20yn%20llydaw%20hen&c=0&s=0&xywh=-813%2C-1%2C4509%2C3974) <darllenwyd 7 Chwefror 2018>

Farmer, D., *Oxford Dictionary of Saints* (United States: Oxford University Press, 2011).

Gray, M., 'Decoding the 'Bulkeley' tomb in Beaumaris', *Transactions of the Anglesey Antiquarian Society*, (January 2016): 41-57; yr erthygl ar gael ar wefan Prifysgol De Cymru: [https://pure.southwales.ac.uk/en/publications/decoding-the-bulkeley-tomb-in-beaumaris\(7df4412e-8e4c-42be-a921-67ebad97afdc\).html](https://pure.southwales.ac.uk/en/publications/decoding-the-bulkeley-tomb-in-beaumaris(7df4412e-8e4c-42be-a921-67ebad97afdc).html) <darllenwyd 20/03/18>

Gruffudd, E., 'Ffynhonnau Thomas Pennant', *Llygad y Ffynnon – Cylchlythyr Cymdeithas Ffynhonnau Cymru*, Rhif 26 Haf 2009 [ar-lein]. Ar gael ar: [http://www.fffynhonnaucymru.org.uk/26\\_haf\\_2009.htm](http://www.fffynhonnaucymru.org.uk/26_haf_2009.htm) <darllenwyd 24/03/18>

Hand, C.R., 'Llanfaes Friary and its Mystery Monument', *Archaeologia Cambrensis*, Vol. LXXIX, Seventh Series, Vol. IV, (1924): 125-188, Llyfrgell Genedlaethol Cymru [ar-lein]. Ar gael ar <https://journals.library.wales/view/4718179/4731052/0#?xywh=-682%2C616%2C3462%2C3045> <darllenwyd 10/03/18>

Harbus, A., *Helena of Britain in Medieval Legend* (Caergrawnt: D.S. Brewer, 2002).

Johnston, D., *Llên yr Uchelwyr – Hanes Beirniadol Llenyddiaeth Gymraeg 1300-1525* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2005).

Jones, A.M., 'Gwisgoedd ac Ategolion yn Llenyddiaeth yr Oesoedd Canol' (Traethawd PhD heb ei gyhoeddi, Prifysgol Cymru Aberystwyth, 2007) [ar-lein]. Ar gael ar: <http://cadair.aber.ac.uk/dspace/handle/2160/499> <darllenwyd 11/10/17>

Jones, T., 'The Book of the Anchorite of Llanddewi Brefi', *Cardiganshire Antiquarian Society - Transactions*, Volume XII, (1937): 62-81, Llyfrgell Genedlaethol Cymru [ar-lein]. Ar gael ar <https://journals.library.wales/view/1177372/1178863/4#?xywh=235%2C1738%2C2478%2C2179> <darllenwyd 19/02/18>

Kightly, C., *Folk Heroes of Britain* (Llundain: Thames and Hudson, 1982).  
Larkin, S.L., 'Transitions in the Medieval Legends of Saint Helena' (Traethawd PhD heb ei gyhoeddi, Prifysgol Indiana, 1995).

Maurice, J., *L'Art et les Saints: Sainte Hélène* (Paris: H. Laurens, 1930).

Lloyd, D.M., 'Casnodyn (fl. 1320-1340), bardd', *Y Bywgraffiadur Cymreig*, Blwyddyn Cyhoeddi 1953-54 [ar-lein]. Ar gael ar: <http://yba.llgc.org.uk/cy/c-CASN-ODY-1290.html?query=casnodyn&field=name> <darllenwyd 11/03/18>

Lloyd-Morgan, C., 'Gwerful, Ferch Ragorol Fain: Golwg Newydd ar Gwerful Mechain', *Ysgrifau Beirniadol XVI*, gol. J.E.C. Williams (Dinbych: Gwasg Gee, 1990): tt. 84-97.

Lord, P., *The Visual Culture of Wales: Medieval Vision* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2003).

Matthews, J., 'Macsen, Maximus and Constantine', *Cylchgrawn Hanes Cymru*, Vol. II rhifau 1-4, (1982-83): 431-448, Llyfrgell Genedlaethol Cymru [ar-lein]. Ar gael ar <https://journals.library.wales/view/1073091/1078288/470#?cv=470&m=10&h=Macsen,MaximusandConstantine&c=0&s=0&xywh=-938%2C0%2C4357%2C3839> <darllenwyd 5/10/17>

Rees, E.A., *A Life of Guto'r Glyn* (Y Lolfa: Talybont, 2008).

Parry, T., *Hanes Ein Llên* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1948).  
Pritchard, T.W., *St Winefride, Her Holy Well and the Jesuit Mission, c.650-1930* (Wrecsam: Bridge Books, 2009).

Pennant, T., *A Tour in Wales Volume II* (Llundain: Henry Hughes, 1781) - Copi digidol Llyfrgell Genedlaethol Cymru [ar-lein]. Ar gael ar: <https://viewer.library.wales/4692660#?c=0&m=0&s=0&cv=9&xywh=1205%2C998%2C1999%2C3066> <darllenwyd 23/03/18>

Roberts, B.F., 'Breuddwyd Maxen Wledig: Why? When?', *Heroic Poets and Poetic Heroes in Celtic Tradition*, goln. J.F. Nagy ac L.E. Jones (Dulyn: Four Courts Press Ltd, 2005): tt. 303-315.

Rhys, J., *Lectures on the Growth of Religion as Illustrated by Celtic Heathendom* (Llundain: 1888).

Schlesinger, A., et al., 'An early church and medieval farmstead site: excavations at Llanelen, Gower', *Archaeological Journal*, Volume 153, 1996 – Issue 1 (Crynodeb) [ar-lein]. Ar gael ar: <https://www.tandfonline.com/doi/abs/10.1080/00665983.1996.11078731?needAccess=true&journalCode=raij20> <darllenwyd 23/03/18>

Stracke, R., St. Helena: The Iconography, ar wefan Christian Iconography [ar-lein]. Ar gael ar: <http://www.christianiconography.info/helena.html> <darllenwyd 11/03/18>

Thomas, G., *Y Traddodiad Barddol* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1976).

Thomas, G., 'O Maximus i Maxen', *Trafodion Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion*, (1983): 7-21, Llyfrgell Genedlaethol Cymru [ar-lein]. Ar gael ar <https://journals.library.wales/view/1386666/1421422/22#?xywh=-315%2C-162%2C2809%2C3875> <darllenwyd 13 Ionawr 2018>

Wade-Evans, A.W., 'The 'Welsh' in Britain', *Transactions of the Honourable Society of Cymmrodorion*, Sessions 1943 and 1944, (1946): 19-34, Llyfrgell Genedlaethol Cymru [ar-lein]. Ar gael ar <https://journals.library.wales/view/1386666/1412710/7> <darllenwyd 10/03/18>

Williams, G., *The Welsh Church from Conquest to Reformation* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1962).

Williams, H.H., 'Cerddi mawl Robin Ddu o Fôn' (Traethawd PhD heb ei gyhoeddi, Prifysgol Bangor, 2012) [ar-lein]. Ar gael ar: <http://e.bangor.ac.uk/5119/1/PhD%20Heledd%20Haf%20Williams.pdf> <darllenwyd 19/11/17>



Williams, I., 'Guto'r Glyn, bardd a ganai yn ail hanner y 15<sup>fed</sup>g. (1440-1493)', Y Bywgraffiadur Cymreig, Blwyddyn Cyhoeddi 1953-54 [ar-lein]. Ar gael ar: <http://yba.llgc.org.uk/cy/c-GUTO-GLY-1440.html> <darllenwyd 29/11/17>

'Y Drych Cristianogawl', erthygl ar wefan Llyfrgell Genedlaethol Cymru [ar-lein]. Ar gael ar <https://www.llgc.org.uk/cy/darganfod/oriel-ddigidol/deunydd-print/y-drych-cristianogawl/> <darllenwyd 20/03/18>

### **Gwefannau:**

Archwilio – Cofnod Amgylchedd Hanesyddol Ymddiriedolaeth Archaeolegol Gwynedd [ar-lein]. Ar gael ar: [http://www.cofiadurcahcymru.org.uk/arch/gat/cym/gat\\_interface\\_cym.html](http://www.cofiadurcahcymru.org.uk/arch/gat/cym/gat_interface_cym.html) <darllenwyd 24/03/18>

Catholic Directory of England and Wales [ar-lein]. Ar gael ar: <http://directory.cbcew.org.uk/> <darllenwyd 25/03/18>

Coflein (Cofnod Henebion Cenedlaethol Cymru) – St Helen's Church, Llanellen [ar-lein]. Ar gael ar: <http://www.coflein.gov.uk/cy/site/420845/details/st-helens-church-llanellen> <darllenwyd 20/03/18>

Crwydro Gŵyr – Llanellen [ar-lein]. Ar gael ar: <http://www.explore-gower.co.uk/llanellen> <darllenwyd 24/03/18>

Rhyddiaith Gymraeg 1300-1425 [ar-lein]. Ar gael ar: <http://www.rhyddiaithganoloesol.caerdydd.ac.uk/cy/> <darllenwyd 12/12/17>

Seintiau Cymru [ar-lein]. Ar gael ar <http://www.seintiaucymru.ac.uk/> <darllenwyd 11/10/17>

Yr Eglwys yng Nghymru, Rhestr o Eglwysi [ar-lein]. Ar gael ar: <https://cym.eglwysyngnghymru.org.uk/strwythur/lleoedd/eglwysi/?id=4933> <darllenwyd 12/02/18>